

ECO'R WYDDFA

RHIF 9

TACHWEDD 1976

Pris: 8g



BETH YW MAGA?

Sefydlwyd Mudiad Addysg Gyflawn Arfon (MAGA) gan nifer o rieni a charedigion Addysg ardaloedd Caernarfon, Brynrefail a Dyffryn Nantlle. Amcanion pennaf y mudiad yw sicrhau yr addysg orau i'n plant, drwy gyfrwng y Gymraeg. I sicrhau adnoddau ac adeiladau o'r radd flaenaf i'r ysgolion ac i sicrhau hefyd addysg berthnasol i anghenion y gymdeithas.

Mae'r mudiad am hyrwyddo addysg plant yr ardal ac am weld yr addysg honno yn adlewyrchu Cymreictod naturiol y rhan hon o Gymru. Cred y mudiad y dylid cysylltu addysg ein hysgolion â gwir anghenion ein cymdeithas fel y gall mwy o'n plant gyfrannu i fywyd yr ardal yn lle gorfod mynd oddiyma i chwilio am waith.

ADDYSG GYMRAEG

Cred MAGA fod y dirywiad yn safon Cymraeg llafar ac yn nifer y rhai sy'n ei siarad yn parhau yn fawychus. "Does dim amheuaeth na fedr ein hysgolion wneud llawer iawn i atal y dirywiad hwn. Un ffordd o wneud hyn yw dysgu pynciau trwy'r Gymraeg".

OES POSIB?

Y cwestiwn sy'n codi yw, "A ydi hyn yn bosib?" Cred MAGA ei fod, ac maent wedi ymchwilio'n fanwl iawn i ystadegau'r ysgolion Cymraeg yng Nghymru. Dyma i chi grynoded o ganlyniadau eu hymchwili:

"Mae nifer o ysgolion yng Nghymru eisoes yn dysgu'r rhan fwyaf o'u pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, e.e., Ysgol Gyfun Ystalyfera — 18 pwnc; Ysgol Gyfun Rhydfelen — pob pwnc ond Saesneg; Ysgol Uwchradd Glan Clwyd — 19 pwnc; Ysgol Gyfun Llanhari — 18 pwnc. Ysgolion Cymraeg swyddogol yw'r rhai uchod, mewn ardaloedd lle mae mwyafrif y bobl yn ddi-Gymraeg. Yn wir, mae llawer o'r plant a ddaw i'r ysgolion hyn yn dod o gartrefi Saesneg eu hiaith."

YDI'R SAFON YN DIODDEF?

Mae MAGA yn sicrhau nad yw'r safon yn gostwng yn yr ysgolion hyn. "O dderbyn canlyniadau'r arholiadau, mae'r ysgolion hyn yn well na'r cyffredin, e.e., Rhydfelen — Safon A, Gradd A +B 1975 : 37.7%. Cyfartaledd trwy wledydd Prydain : 23.1% Glan Clwyd — Safon O, 5 pwnc neu ragor (1976) : 32.1% Cyfartaledd trwy Gymru: 23.0%".

Mae MAGA yn bendant ar ôl eu hymchwiliadau nad yw safon Saesneg y plant yn dioddef chwaith.

SEFYLLFA GWYNEDD

Dywedodd llefarydd ar ran MAGA, "Polisi Cyngor Gwynedd yw hybu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Un ysgol yng Ngwynedd yn unig sy'n dysgu mwy na deg pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg, a saith o'r rhain yn unig i Safon A. Mae gweddill ysgolion Gwynedd ymhell ar ei hôl hi, a dyna yw'r sefyllfa yma yn Arfon".

BETH YW'R ATEB?

Mae MAGA yn sicrhau o un peth, sef bod angen cydweithrediad rhwng y Pwyllgor Addysg, y Prifathrawon a'r Athrawon, y Rheolwyr a'r Rhieni i sicrhau cynnydd a datblygiad addysg Gymraeg yn Arfon. Mudiad yn cynrychioli'r rhieni yn bennaf yw MAGA, mudiad sy'n bwriadu sicrhau trwy gydweithio â'r uchod y gwiredir y nod mor fuan ag sydd bosibl.

Post Nant, yn stiwdio Sain yn Llandwrog, yn Amgueddfa Chwarel Dinorwig, ac fe arestiwyd dyn tu allan i Gromlechdy, Nant Peris.

Parhad ar dudalen 2.

APÊL ANGORFA — CARTRE'R DEWRAF O'N HAWDURON

Ymddiriedolwyr y les ar 'Angorfa', Stryd y Dŵr, Llanberis o hyn allan fydd Cyngor Cymuned Llanberis. Datgelwyd hyn mewn is-bwyllgor o'r Cyngor ddiwedd y mis a aeth heibio, ac yn awr y maent am lansio apêl genedlaethol er mwyn codi arian i wynebu'r costau.

Yn 'Angorfa' y magwyd un o'r llenorion mwyaf a welodd Cymru erioed, sef y diweddar T. Rowland Hughes. Er nad yn Angorfa y cynhyrchodd y rhan helaethaf o'i waith, mae'n wir mai yno y cafodd y weledigaeth a'r symbyliad i greu ei gampweithiau llenyddol. Yn wir, dyma ddeunydd crai rhai o'i nofelau a'i gerddi. Seiliwyd "O Law i Law" ar y fangre hon

Y CYNLLUNIAU

Mae cynlluniau ar droed erbyn hyn i adnewyddu'r tŷ. Mae cryn waith i'w wneud ar y tu mewn a'r tu allan. Gobaith mawr y Cyngor yw y defnyddir y tŷ gan y genedl yn ogystal â'r pentrefwyr. Ei brif ddefnydd fydd canolfan cyfarfod dyddiol i oedolion a chyn-chwarelwyr yr ardal, lle i sgwrsio, darllen a difyrru eu hunain dros banded. Gobeithir defnyddio Angorfa ar gyfer mân bwyllgorau a chyfarfodydd trafod ac fel storfa i ddogfennau a defnyddiau yr ardal.

AMGUEDDFA

Ar ol ail gynllunio'r ystafelloedd, gobeithir cael amgueddfa neu arddangosfa o weithiau, lluniau, llythyrau a gwobrau

eisteddfodol y llenor. Bydd hyn o fudd mawr i bartion o



blant ysgol a ddaw ar eu hynt drwy Lanberis ac hefyd i'r llu o ymwelwyr o bob rhan o Gymru.

Diolch fod gennym aelodau ar Gynghorau Cymuned yng Nghymru heddiw sy'n edrych tu hwnt i broblemau arian a chwyddiant er mwyn sicrhau y cedwir "i'r oesau a ddêl y glendid a fu".

Mae'r fenter yn werth i'w chefnogi. Os ydych am fwy o fanylion gyrrwch at Mr. Ken Jones, 19 Maes Padarn, Llanberis neu anfon eich cyfran-

iadau ynghyd â'ch enw a'ch cyfeiriad i "Cronfa Cartref T. Rowland Hughes," Clerc y Cyngor Cymuned, d/o Banc y Midland, Llanberis.

DOWCH I HOLI

Bydd y rhaglen radio "Hawl i Holi" yn cael ei recordio gan y BBC nos Fawrth Tachwedd 2ail yn Ysgol Gynradd Llanrug, am Cofiwch ddod draw i chwyddo'r gynulleidfa.

Llofruddio yn Nant Peris

Un bore, ym mis Medi 1975, daethpwyd o hyd i gorff noeth Dafydd Iwan wedi ei baentio'n wyrdd, yn gorwedd yn Afon Afr, Nant Peris. Yr un pawns, fe laddwyd Barry John ar gae ffwrtbol Llanberis, gan fom a guddiwyd mewn pêl ffwrtbol. Yn ystod yr wythnos ddilynol fe ddifethwyd aml i Gymro enwog arall yn yr ardal — Hywel Gwynfryn, Telynores Dwyrdd, Ifans y Tryc. Bu'r polis yn holi yn

ECO'R WYDDFA

RHIF 9 TACHWEDD 1976

Golygydd : Arwel Jones, Gwên-y-Wawr, Glanffynnon Llanrug.

Ffôn : Caernarfon 3719.

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd, Nant Peris.

LLWYDDIANT AC ANRHYDEDDAU I WEITHWYR PAPURAU BRO

Cafodd Mr. Ian Pierce, Llanrug, ei benodi yn Ddirprwy Bennaeth Ysgol Gynradd Llanllyfni. Ef yw Trefnydd Gwerthiant Eco'r Wyddfa i fusnesau tu mewn a thu allan i'r fro.

Enillodd Trefnydd Plygu Eco'r Wyddfa, sef Mr. Tony Elliott o Benisarwaun, dlws Eisteddfod Bodffordd, Sir Fôn.

Cafodd ein Gohebydd dros Ddeiniolen, Dinorwig a Brynrefail, sef Mr. Robert Williams, ei benodi yn Ystus Heddwch y mis hwn.

Llongyfarchion y fro a'r Eco i'r tri.

Er mai Golygydd y dudalen Chwaraeon i bapur bro Bethesda, Llais Ogwan, yw Mr. Dafydd Arfon Jones, Minffordd, Llanrug, mae ein dymuniadau da yr un mor ddiffuant iddo yntau ar gael ei benodi yn Ddirprwy Bennaeth Ysgol Glanadda, Bangor.

CYFRANIADAU

Di-enw: £1. Mrs. Ellen Jones, Trelawnyd, Clwyd (gynt o Glanllyn, Llanrug): £1.

Llawer o ddiolch.

ENILLYDD

Enillydd Croesair Rhif 7 oedd Mr. Goronwy Lewis, 13, Stryd Ceunant, Llanberis. Mae wedi dychwelyd y wobr o £1. Diolch o galon.

Parhad o dud. 1

Dydd Mercher nesaf yn Neuadd y Parc Cenedlaethol yn y Nant, mi fydd ffrwyth y digwyddiadau rhyfedd hyn i'w gweld ar y sgrin. Fe fydd 'Gwaed ar y Sêr', y ffilm a saethwyd llynedd yn y Nant yn dechrau ei thaith drwy dros gant o bentrefi a threfi Cymru. Nos Iau, 4ydd o Dachwedd mi fydd yn Festri Capel Coch, Llanberis, Nos Fawrth 9fed yn Neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda; nos Fercher 10fed ym Mhorthaethwy; nos Iau 11fed yn Ysgol Brynrefail; a nos Wener yn Ysgol Syr Huw Owen, Caernarfon.

Cymerir rhan yn y ffilm gan nifer o bobl leol. Mae pymtheg o blant Ysgol Brynrefail yn chwarae rhan sinistr iawn ynddi; mae J.W. Ellis (Perisfab) yn adrodd yn waedlyd, ac mae R.H. Jones, Deiniolen yn canu ynddi. Mae'r diweddar Miss Katie Morris, Cerrig

LLYTHYRAU



6 Oakwood Avenue
Dandenong
Victoria
Awstralia

Annwyl Olygydd,
Merch wyf fi i'r diweddar Wil Edwyn o'r Stabla, a chwaer i Mary Davies, 9 Llys Gwynt, Penisarwaun. Byddaf yn edrych ymlaen yn arw am Eco'r Wyddfa - mae mor ddiddorol.

Mae gennyf atgofion melyn iawn am Benisarwaun ac hefyd Eglwys St. Helens. Gyrraf y llun uchod i chwi o blant yr ysgol Sul yn y flwyddyn 1951 gyda'r diweddar Barch. Richard Parry. Fy ffrind pennaf oedd Eirlys

Williams, merch Rose Jones y Post Rwy'n cofio fel y byddai Rose yn rhedeg ar ol hogia Bethel hefo brigyn pan oeddem ni'r genod yn mynd am dro hefo nhw!

Priodais â gŵr o Scotland ac mae gennym ddau o blant - Bronwen 12 oed a Trevor 15 oed.

Mae capel Cymraeg da iawn ym Melbourne ond cewch glywed amdano gan Selwyn a Gwyn o Bethel.

Fy nghofion at bawb ymhobman.

Helen Ireland

Gol.: Hoffem glywed mwy o hanes y Capel, a gwaith y gŵr etc. Beth am lun ohonoch chi a'r teulu?

SIÔN CEUNANT

9 Glanrafon
NANT PERIS

Annwyl Olygydd,
Parthed y darlun 'Oes Rhywun yn ei Adnabod?' yn Eco'r Wyddfa, pleser gennyf ddweud imi adnabod Siôn Ceunant, a'r cyfaill ar y chwith iddo.

John Edward Roberts, 'Ceunant' Nant Peris oedd Siôn Ceunant. Fe'i lladdwyd yn Suvla Bay, Gallipoli, ar y 23ain o Dachwedd 1915.

Ar wyladwriaeth yn y ffosydd, ar noson oer o farrug oedd, pan saethwyd ef yn ei dalcen gan un o'r gwylywyr Twrciaidd. Fe'i claddwyd yn y fan a'r lle.

Wedi i'r newydd gyrraedd y Nant fe gofiwyd amdano mewn

gwasanaeth arbennig, yn eglwys y plwyf. Mae ei enw ef a naw gwron arall, ar dabled yn yr eglwys ers blynyddoedd.

Hen gyfaill iddo yw Thomas R. Evans, Gardda Fawr, bellach yn byw ym Mangor gyda'i ferch. "Un o'r hogia" ffeindia yn y Nant oedd Sioned," oedd ei deyrnged ef iddo ychydig ddyddiau'n ôl.

Dychwelodd y cyfaill ar y chwith iddo, Bob Stamps, Robert Phillips, i'r ardal, a bu fyw am flynyddoedd.

Roedd fy nhad innau, Bob John, Robert John Thomas, yn y gyflafan honno hefyd. Cludwyd ef i Alexandria, yr Aifft, yn dioddef o'r gwaedlif. Bu farw yno ar yr 21ain o Fedi, 1915. Gwelais ei fedd yn nechrau'r Ail Ryfel Byd.

Yn gywir,
Elfed Thomas

Mae gwybodaeth am rai eraill yn y llun gan y Golygydd.

-y-Drudion a Charlie Lovell, Bro Glyder yn actio rhannau bychain ynddi, a'r cyfarwyddo gan Wil Aaron, Cwm Eilir Isaf.

Yn y rhan fwyaf o'r canolfannau yr ymwelir â hwy fe roddir dwy sioe. Y gyntaf fydd sioe o gartwnau ac o gomediau i blant o 6-00 tan 7-30. Y brif ffilm fydd cartwn awr o hyd - 'Ynys y Trysor'. Yn yr ail sioe, o 7.45 tan 10-00, mi fydd dwy ffilm yn

ogystal â 'Gwaed ar y Ser'. Fe roddodd H.T.V. gopi o'u ffilm lwyddiannus ar gyngerdd olaf Edward H. Dafis i'r fenter, ac fe roddodd Aelwyd Llandwrog gopi o'u ffilm hwy ar awdl Gerallt Lloyd Owen - 'Yr Afon'.

Drwy gydweithrediad yr Adrannau a'r Aelwydydd lleol y bydd y sinema newydd yn gweithredu.

TAN-Y-COED

O'R YSBYTY

Y mae Mrs. Jennie Maud Griffith, Llys Meredydd adre'n ôl o'r ysbyty. Parhaed i wella.

CYDYMDEIMLO

Pnawn Llun Diolchgarwch Hydref 18ed, brawychwyd yr ardal a'r newydd trist am farw sydyn un o blant y fro - Mr. Bertie Jones, mab y diweddar Mr. a Mrs. John Jones, 6, Tai Bryngwyn. Cartrefai Mr. Bertie Jones yng Nghaernarfon. Gedy briod Mrs. Gwyneth Jones a mab a merch. Cydymdeimlwn â hwy ac a'i frawd Mr. R. Arfon Jones, 6, Tai Bryngwyn a'r teulu oll yn eu profedigaeth annisgwyladwy.

Y mae cydymdeimlad yr ardal hefyd â Mrs. Nellie Hughes, 3 Maesgerddi wedi colli tad, a Mr. Gwilym Rees Hughes Oerddwr wedi colli brawd.

OEDFAON DIOLCH

Cafwyd tair Oedfa Ddiolch yng Nghapel Tan-y-Coed ddydd Llun Diolchgarwch - Cyfarfod Gweddi yn y bore, Gwasanaeth y Plant am ddau o'r gloch. Y plant oedd yn gwasanaethu yn rhan gyntaf y cyfarfod, ac yn y rhan olaf cafwyd anerchiad i'r plant gan y Gweinidog y Parchedig W.O. Roberts. Yn yr hwyr pregethwyd gan y Parch W. Gray Edwards, Tregarth.

Mrs. Violet Blanchard oedd y cyfeilydd yn y bore a'r hwyr a Mrs. Beryl M. Jones yn y prynhawn. Yn ystod gwasanaeth y prynhawn croeshawyd dwy aelod eglwysig newydd. Mrs. Morfudd Roberts, Tai Minffordd a Mrs. Bridget Williams, Prysgol.

CLOGWYN CLIMBING GEAR

Yn ddiweddar cafodd Cwmni Clogwyn Climbing Gear Ltd. Deiniolen arddangos eu cyfarpar yn y "Sporting Goods Trade Fair" yn Cologne, Gorllewin Yr Almaen Cynrychiolwyd y Cwmni gan Mr. Terry de Boo, Bryn Cwil a Mr. David Cuthbertson ac maent yn hyderus y daw archebion gwerth o gwmpas £50,000 i law mewn canlyniad i lwyddiant yr arddangosfa hon. Ym mis Tachwedd bydd arddangosfa arall yn Tokyo Japan ac un arall yn Chicago U.S.A. yn ystod Chwefror 1977.

CHWITHDOD

Mis yn ôl ymadawodd Mr. David Ashton, 10 Tai Bryngwyn i Ogledd Ddwyreiniol Nigeria. Peiriannydd mewn Planhigfa Siwgr newydd fydd Mr. Ashton yn ei gylch newydd. Canol mis nesaf bydd Mrs. Ashton, ei briod a'u teulu, mab Kenneth a'u merch Mary yn ymuno ag ef yn eu cartref newydd. Dymuna'r ardal bob bendith iddynt yn eu cylch newydd. Bydd chwithdod mawr ar eu hôl ymhlith eu cyfeillion.

Cronfa Goffa Wmffra Roberts

50c Mrs. A. Jones, Penygroes
£1-00 Eric Jones (eto) Caernarfon; Mrs. O. Llwyd Jones, Penygroes; Arfon Jones, Bryncir; Bert Parry, Llanberis; Mr. a Mrs. S. Pritchard, Llanberis; Gwilym S. Jones, Nant Peris; Mrs. Roberts, Waunfawr; Mr. a Mrs. Grisdale, Caernarfon.

£2-00 Mr. a Mrs. Alwyn Owen, Llanberis; Trefor Williams, Llanberis; Matt. Pritchard, Caernarfon
Mrs. W.W. Jones, Bryncir; Lewis Valentine, Hen Golwyn.

£3-00 Mr. a Mrs. Arwel Jones, Llanrug; Mr. a Mrs. T.E. Jones, Penygroes; Robin Roberts, Penygroes.

£5-00 Dr. a Mrs. Miles, Waunfawr; Ifan a Rhian Gwyn, Rhos-tryfan; Emllyn Jones, Morfa Bychan; W. a M. Vaughan Jones, Waunfawr; Angharad Jones, Bryn-siencyn; Dr. John Gwilym Jones, Groeslon; D.V.A. John, Aber-

tawe; Mrs. G. Bowyer, Bont-newydd; W.A. Jones, Llanrug; Cyfaill o Edyrnion, Cangen Llanberis.

£10-00 Malltwn Griffiths a'r teulu, Llangwnadl; Phyllis Ellis, Penisarwaun; Elfed ac Evelyn Gruffydd, Pwllheli; Marina E. Jones, Tremadog; Emllyn Jones, Llanrug.

£12-00 Cangen yr Efl.

£12-30 Cangen Rhostryfan

£20-00 Cangen Deiniolen; Pwyllgor Etholaeth Conwy.

£25-00 Dafydd Wigley, A.S.

£50-00 Di-enw; Laura a Wm. Parry, Llanfairfechan.

Dyma'r ail restr o gyfrannwyr i'r Gronfa. Diolch o galon i bawb ohonoch am eich rhoddion hael. Os oes rhywun arall yn dymuno cyfrannu anfoner at:

Dewi Tomos, Gwelfor, Rhostryfan, Gwynedd.

Y GYMDEITHAS FEDDYGOL

Mae *Eco'r Wyddfa* wedi sôn eisoes am y Gymdeithas newydd hon a sefydlwyd ym mis Hydref, 1975. Cynhaliwyd dwy Gynhadledd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio; y gyntaf ym Mhlas Maenan, Llanrwt a'r ail yng Nglanefin (gwesty rhwng Llangadog a chartref y meddygon enwog gynt, sef pentre Myddfai). Prif bwrpas y Gymdeithas yw meithrin a datblygu'r iaith Gymraeg yn gyfrwng ymarferiad meddygaeth.

'Rwyf yn aelod o'r Gymdeithas o'i sefydliad, ond rhaid cyfaddef imi fynd tipyn yn amheus i'r Gynhadledd gyntaf. Pryderais rhag ofn i brif bwrpas y Gymdeithas roddi gor-bwyslais ar yr iaith yn hytrach na'r cynnwys meddygol. Dysgais eisoes bod yno nid yn unig safon uchel a chanmoladwy o drafod materion meddygol, ond bod cyfoeth a dichon-olrwydd yr iaith yn amlwg iawn yno; y ddwy nod yn gydradd â'i gilydd

YR IAITH YN DDIGON YSTWYTH

Yr ydym bellach wedi clywed darlithiau ar bynciau llawfeddygol seic-iatryddol a hanesyddol, ac wedi trafod triniaeth pobl mewn oed a babanod; 'rwyf fy hunan wedi darlithio ar bwnc bacteriolegol. Ein profiad yn Y Gymdeithas Feddygol yw bod y Gymraeg yn ddigon ystwyth i drafod materion pur dechnegol a gwyddonol mewn dull hollol naturiol, a hyn heb ddefnyddio mynegiad mawreddog na rhodresgar. Mae'n llythrennol wir bod defnydd yr iaith yn y cysylltiad hwn mor briodol nes i'r gwraddnawyr anghofio bron bod y darlithydd yn siarad Cymraeg — a chofier mai yn Saesneg ddarfu bob un meddyg dderbyn ei addysg feddygol.

DIOGI

Yn hyn, mae gwers i bob un ohonom. Mae'n boen arnaf yn aml glywed blerwch a diofalwch iaith lafar rhai o'r Cymry. Mae yna drysorfa yn ein hiaith a camwedd yw llygru, drwy esgeulustod neu ddiogi meddyliol, y cyfoeth sydd o fewn cyrraedd bob un ohonom. Yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf, mae ieuencid Cymru wedi ceisio ac wedi llwyddo i greu chwyldroad yn safonau llafar yr iaith. Gwyn fo eu byd; 'rwyf fi, yn un, yn barod i'w cefnogi.

R. Fraser Williams, MB., ChB., FRC.Path.,
Microbiologydd Ymgynghorol,
Ysbytai Plant Salford a Gogledd Manceinion.

Bacteriolegydd Ymgynghorol,
Gwasanaeth Iechyd Cyffredinol Lloegr a Chymru,
Darlithydd Bacteriolegol,
Prifysgol Manceinion.

ECÓR WYDDFA yn Canada




Ychydig wythnosau'n ôl dychwelodd Mr. Griff Hughes (Griff Postman i ni sy'n ei adnabod yn iawn a'i wraig, Pearl, yn ôl i Lanberis am gyfnod o wyliau. Maent yn byw ar hyn o bryd yn St. John's, Newfoundland, Canada, lle mae Griff yn gweithio mewn stôr enfawr a Pearl yn ysgrifenyddes yn swyddfeydd y Llywodraeth. Hyfryd oedd cael eich cyfarfod un-waith eto, a chofiwch y bydd croeso cynnes yn eich disgwyl yn yr hen fro.

Ysgwn i a gawn ni lun a nodyn oddi wrth rywun arall o'r fro sy'n byw mewn gwlad dramor? Buasai'r Golygydd yn falch iawn o glywed oddiwrthych.

AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO

Eric Morris



**Arvon Coaches
LLANRUG**

FFÔN WAUNFAWR 254

CEUNANT

PRIODAS

Dydd Sadwrn, Hydref 3ydd yng nghapel Ceunant priodwyd Edwina Jones merch Mr. a Mrs. Caradog Jones, Tŷ Capel a Meirion Wyn Thomas mab Mr. a Mrs. J.E. Thomas, 24, Cae Garreg Caernarfon. Gwasanaethwyd gan y Parch. W.O. Roberts a Miss Eirlys Jones, oedd yr organyddes. Y forwyn oedd Veronica Jones, Tan y Coed, a'r gwas Arthur Jones Gareth Jones a Gwynfor Thomas oedd yr ystlyswyr. Bydd y pâr ieuanc yn ymgartrefu yng Nghaernarfon.



"Dyna braf cael byw mewn ty haf"

Yn ôl adroddiad gan Brifysgol Cymru, mae 'na 181 o ail gartrefi ym mhlwyf Llanddeiniolen; 117 yn Llanrug, a 75 yn Llanberis. Dyna gyfanswm o 373 yn y fro hon.

Ôl-nodyn (1) Pa mor hir fydd dy enw di ar y rhestr aros am dy yn y fro hon?

Ôl-nodyn (2) Mae'r 'Times' yn cynghori'r cyfoethog i brynu ail gartrefi fel buddsoddiad er mwyn osgoi effaith chwyddiant. Cafodd Draenog wybod bod rhai o dai'r fro wedi eu prynu fel buddsoddiad heb i'r prynwr hyd yn oed gyboli dod i weld ei ail gartref.

Gwesty Dolbadarn

Tŷ

Rhydd-

Feddiant

Llanberis

FFÔN : LLANBERIS 277

Perchennog

Aneuryn

Jones

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS
NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd

CANOLFAN DRECIO

Holwch am ein

telerau rhesymol



LLANBERIS

CLWB METHEDIG ERYRI

Cyferfydd y Clwb yn wythnosol am 2 o'r gloch ddydd Llun, yn y Ganolfan. Bu dau o'r aelodau mewn ysbytai ac wedi dod adref a gwella sef John Williams 49, Glanyffynnon, Llanrug a Mrs. Edward Thomas, aelod o'r pwyllgor.

Dymuna'r llywydd, Matron Jones a'r Cadeirydd, Mr. Ted Thomas ddiolch i'r Gwasanaethau Cymdeithasol am drefnu cludiant i'r aelodau mewn argynfwng diweddar.

COLLED

Bu farw yn ddiweddar Mrs. Eva Hughes, 32, Dôl Elidir. Gwraig hoffus a hawddgar oedd Mrs. Hughes ac yn uchel ei pharch yn yr ardal. All bro ddim fforddio colli cyfeillion o'r math yma. Cydymdeimlir â'r teulu oll.

BRYSIWCH WELLA

Mrs. L. Closs, Minafon Terrace a Mr. David Morris Dôl Elidir ar ôl y ddamwain ar yr Wyddfa. Mr. William Lewis, Llys Tudur, Warden Street, Mr. Walter Roberts Stryd y Dwr. Ein dymuniadau gorau i chwi i gyd am adferiad llwyr.

LLONGYFARCHIADAU:

I mam, sef Mrs. Delia Parry ar ei phenblwydd yn 70 oed ar Dachwedd 7ed oddi wrth y plant, Hefin, Gwyneth, Ann, Awen, Gordon a Maureen.

Gan eich bod wedi bod yn fam mor garedig - mae *Eco'r Wyddfa* am gyhoeddi cyfrinach. Mae'r plant wedi llogi Erw Fair ar gyfer nos Sadwrn, Tachwedd 6ed ac maent am roi coblyn o de parti iawn i chi!



DIOLCHGARWCH

Cynhaliwyd Gwasanaeth Ddiolchgarwch y Plant eglwys Gorffwsfa Preswylfa a Chapel Coch yng Nghapel Coch brynhawn ddydd Llun. Paratowyd y plant gan garedigion y Cyfarfod Plant. Mr. John Davies oedd Arweinydd y Gan. Wrth yr offeryn, Mrs. Beti Rees-Evans a Ll. Roberts a Cledwyn Parry. Roedd y casgliad rhydd (a ffrwythau'r plant) yn mynd at Y Cartref, Bontnewydd. Iona Roberts (Capel Coch), Paul Thomas (Gorffwsfa) ac Arwel Hughes (Preswylfa) oedd yn cynrychioli'r plant eraill ar ymweliad â'r Cartref gyda'r ffrwythau.

YR AELWYD

Danghoswyd ffilm "Yr Urdd" yn yr Aelwyd yn ddiweddar gan Mr. Dafydd Owen, Trefnydd yr Urdd

yn Arfon. Cynhyrchwyd y ffilm gan Wil Aaron, Nant Peris. Trefnir hefyd i ddangos ffilmiau yn Yr Aelwyd nos lau, Tachwedd 4ydd yn festri Capel Coch. Bydd un sesiwn o ffilmiau, cartwnau etc. yn arbennig i blant am 5.30 ac yna sesiwn arall i'r cyhoedd yn gyffredinol am 7.30 pan geir ffilm o gyngerdd olaf "EDWARD H. DAFIS" a ffilm a wnaed yn y Nant gyda phlant yr ardal yn cymeryd rhan "GWAED AR Y SÊR". Bydd gan yr Aelwyd dim eto eleni yn cystadlu am Gwpan Pantyfedwed.

Bydd tocynnau i'w cael oddi wrth Mri. Myfyr Roberts, Bert Parry, John Owen ac aelodau'r Aelwyd.

UN O GYMERIADAU HYNAF YR ARDAL

Bu farw Mrs. Annie Roberts, gynt o 12, Dôl Elidir yn ddiweddar mewn Ysbyty yng Nghonwy yn 98 oed. Un o ffyddloniaid eglwys Preswylfa ydoedd. 'Roedd yn wraig siriol iawn, a brwydrodd trwy lawer cystudd yn ystod y blynyddoedd olaf hyn. Cydymdeimlir â'r teulu oll yn eu hiraeth amdani.

MEWN YSBYTAI

Dymunir gwellhad buan i'r Mri. Ifor Parry, Maes Padarn, T.C. Williams, Baladeulyn a T.J. Williams, Beach Bank. Croesewir Carys Wilson Hughes, Maes Padarn yn ei hôl wedi bod mewn ysbyty yn Llundain am dair wythnos.

DIOLCH

Dymuna teulu Cartref Pengwaith Llanberis ddiolch am y Ffrwythau, Blodau a Llysiau a gafwyd gan y canlynol yn ystod yr wythnos Ddiolchgarwch:

Eglwys Gatholig, Llanberis; Eglwys St. Michael, Llanrug (gan y plant); Plant Ysgol Feithrin Gwaun Gynfi, Deiniolen; Ysgol Babanod, Brynrefail; Capel Jeriwsalem, Llanberis; Capel Nant Padarn, Llanberis.

PLAID CYMRU

Cafwyd cyfarfod amrywiaethol llwyddiannus yn ystod mis Hydref pryd yr ymwelodd Cangen Bethel a'r Gangen leol. Cafwyd eitemau adloniadol a chystadleuol. Ar ddiwedd y cyfarfod etholwyd y swyddogion canlynol am 1977: Llywydd Anrhydeddus: Perisfab; Cadeirydd: T.J. Roberts; Is-Gadeirydd: Miss Meira Jones; Cyd-ysgrifenyddion: Mr. Bert Parry, Mrs. Ann Pritchard; Trysorydd: Mrs. Enid Mable Williams; Poster: Mr. Selwyn Pritchard; Ysgrifenyddion y Wasg: Mrs. Happy Jones, Miss Meira Jones; Ysgrifenyddion Aelodaeth: Mr. Bert Parry, Mrs. Ann Pritchard.

Ar 11eg o Dachwedd trefnir Disco yn y Ganolfan ac ym mis Rhagfyr trefnir Ffair Nadolig.

Bydd Ffair yn cael ei threfnu gan Bwyllgor Merched Arfon ar 13eg o Dachwedd yng Nghaernarfon. Derbynnir nwyddau, cacennau ac ati ar gyfer y Ffair gan Mrs. Ann Owen, Bron y Graig.

YR URDD

Bydd yr Adran (11 - 14 oed) yn ail gychwyn am 6 nos Wener, 29 Hydref yn Festri Capel Coch. Bydd yr Adran dan ofal Mr. B. Parry a Miss Meira Jones.

CANOLFAN TANYBONT



Cyn fyfyrwr gyda'r Annibynwyr, a roes ei fryd unwaith ar fynd yn weinidog a benodwyd yn rheolwr canolfan newydd Tanybont, Caernarfon.

Mae'n 46 oed ac yn enedigol o Rydyclafdy ym Mhen Llyn. Daw ei wraig, Sybil, o Aberdâr, a bydd hithau yn cydreddeg y Ganolfan gyda'i gŵr.

Mae Mr. Roberts wedi bod yn gweithio fel tafarnwr i Trust House Forte yn yr Alban, ac yng Nghymru, ac mae'n byw ar hyn o bryd yng Nghastell Nedd Bydd yn cychwyn ar ei waith ar y 22ain o Dachwedd.

RHAGLEN ADLONIAINT

Mae rhaglen adloniant wedi ei threfnu'n barod a dim ond pum noson wag sydd ar ôl o'r dyddiad agor tan y Nadolig.

Yn ogystal ag artistiaid poblogaidd fel Heather Jones a Dafydd Iwan fel neilltuir un noson y mis i gantorion gwerin o'r gwledydd Celtaidd eraill. Cynhelir disco bob nos Fercher a nos Sadwrn, ac mae nifer o nosweithiau wedi eu neilltuo ar gyfer ymrysonfeydd barddoni a darlithoedd ysgafn.

Trefnwyd y dylid cynnal cystadlaethau dartiau bob nos Fawrth. Bydd bwyd (cyw iâr yn y fasedg ac ati) ar werth ar unrhyw adeg.

Gellir ymaelodi trwy gysylltu ag Idris Owen, yr Ysgrifennydd Aelodaeth, Siop y Modur, Caernarfon.

MUDIAD Y MORWYR PRYDEINIG

Casglwyd y swm o £41.22 yn y pentref tuag at Fudiad y Morwyr Prydeinig. Dymuna'r trefnydd, Miss Jane Morris, ddiolch i'r pentrefwyr am eu cefnogaeth ac i'r casglwyr am eu gwaith diwyd.

A'R BONT YN WAG....

Erbyn heddiw mae geiriau'r bardd yn ffaith. "A'r bont yn wag sy'n croesi'r dŵr difwstwr ym Mhenllyn" - fe wnaethpwyd yr hen bont yn 'redundant' ddechrau mis Medi ar ôl yn agos i gan mlynedd a hanner o drafnidiaeth ddibaid. Clywais y diweddar Hugh Jones, Meillionen, yn dweud mai dyn o Gorwen o'r enw Huw Jones a'i fab a'i hadeiladodd am y swm o £60. Tybed a fydd yr anghenfil o goncridd yn is i lawr yr afon - a gostiodd yr holl filoedd - yn dal i aros ymhen 150 mlynedd arall?

Cariodd yr hen bont rai miloedd o chwarelwyr i ddal y trên ym Mrynrefail dros y blynyddoedd, a rhai miloedd o blant yr ardal i'r hen ysgol Brynrefail. A sawl carwriaeth a ddechreuodd ar ei chanllaw tybed? A lle yng Nghymru, neu yn y byd o ran hynny, y cewch well golygfa nag oddi ar Bont Penllyn?

Diolch nad yr un dynged fydd iddi hi ac a fu i Bont-y-Bala a Phont y Fricsan yn ystod y flwyddyn yma.

E.W.

STORFA

Mace S.&E. Jones Llanrug

FFÔN: Caernarfon 2790

BLODAU A FFRWYTHAU
YW EIN
HARBENIGRWYDD



S. JONES

CYFANWERTHWYR
FFRWYTHAU
(WHOLESALE
FRUITERER)

Y STORFA
LLANRUG
FFÔN
CAERNARFON 2790

NANT PERIS

CROESO ADREF

Balch ydym o gael croesawu Mr. Alun W. Hughes, Hafod Gynfor adref o'r ysbyty. Da gennym ddeall ei fod yn gwella yn foddhaol a dymunwn iddo lwyr adferiad yn fuan iawn.

Hefyd Mrs. Rhiannon Roberts, 1 Bro Glyder. Da gennym ei gweld adre'n ôl ar ôl ychydig ddyddiau yn Ysbyty Dewi Sant.

LLONGYFARCHION

Llongyfarchiadau i Mr. William H. Davies, Glyn Peris ar ei ben blwydd yn 89 mlwydd oed ar yr 18ed o Hydref. Wedi ei eni a'i fagu yn y Nant ac atgofion lu ganddo am yr amser a aeth heibio. Da gennym ei weld yn mwynhau iechyd ac mor heini ar ei droed a'i gof a'i feddwl mor glir ac erioed.

Bydd Mrs. C.A. Jones, Pennant yn 90 mlwydd oed ar yr 28ain o Hydref. Mae yn cartrefu bellach gyda'i merch a'i mab yng nghyfraith, Mr. a Mrs. Arthur Williams, Pennant. Bob bendith i Mr. Davies a Mrs. Jones a gobeithio y cânt fwynhau blynyddoedd eto yn ein plith.

Llongyfarchion o natur wahanol i Mr. a Mrs. Owen W. Humphreys, 3, Gwastadnant. Dydd mawr a phwysig yn eu hanes hwy oedd y 15fed o Hydref pryd yr aethant yn daid a nain am y tro cyntaf. Ganwyd mab i Helen a Tony ar y dyddiad yma ac anfonwn ein llongyfarchion iddynt hwythau ar enedigaeth Gareth James. Pob bendith i Taid a Nain, Tony, Helen a Gareth yw dymuniad pawb yn y Nant.

I'R YSBYTY

Drwg iawn oedd gennym ddeall fod Mr. Harry W. Jones, 2, Nant y Ffynnon wedi mynd i Abergele i'r Ysbyty am archwiliad. Hyderwn yn fawr na fydd raid iddo fod yno yn hir, ac y cawn ei groesawu yn ôl wedi cael llwyr adferiad yn fuan iawn.

GWEITHGAREDDAU'R GAEAF

Deallwn fod y Clwb Ieuencid eisoes wedi dechrau ar ei waith o dan eu harweinydd Mr. Kenneth Jones. Deallwn fod nifer dda yn mynychu'r clwb.

Bydd y Gobeithlu yn dechrau nos Iau Hydref 28 a bydd croeso i holl blant yr ardal. Edrychwn ymlaen am dymor llwyddiannus.

O'R UNOL DALEITHIAU

Flwyddyn yn ôl bu Mr. Caradog Ellis yma ar ymweliad. Ganwyd ef ym Mhen y Bont — sydd bellach wedi ei chwalu gan y Bwrdd Cynhyrchu Trydan. Ychydig feddyliai neb ohonom a gyfarfu â Mr. Ellis yr adeg honno yn mwynhau

ei hun ymysg golygfeydd ei hen ardal ei fod yn edrych arnynt am y tro olaf. Cafodd Mr. J.W. Ellis air oddi wrth fab Mr. Caradog Ellis yn ei hysbysu fod ei dad wedi marw yn sydyn oddi wrth darawiad y galon ym mis Medi eleni.

O fewn tafliad carreg fel y dywedwn yr oedd cartref a adnabyddir fel "Stamps". Yno y magwyd Annie Roberts. Yn ystod y mis bu Mrs. Roberts farw wedi cyrraedd yr oedran teg o 98. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent y Nant. Anfonwn ein cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth.

CYDYMDEIMLAD

Drwg iawn oedd gennym glywed am farwolaeth sydyn Mr. Owen Roberts, Ceunant gynt, ddechrau yr wythnos. Derbynied ei chwior-ydd, y plant a'r teulu i gyd ein cydymdeimlad dyfnaf â hwynt yn eu profedigaeth.


ANAP

Drwg gennym ddeall fod Mr. D. Thomas, Faenol Arms, wedi cael anap i'w goes. Dymunwn yn dda iddo yntau.

Hefyd Mr. T.J. Roberts, Llys Awel, a fu yn cael triniaeth i'w lygad yn Ysbyty'r Bwth, Caernarfon.

Agor Ffiniau'r Gorffennol

gan Mary Lloyd Williams



DARLUN O ELIAS EVANS

Anfonwyd y darlun o Elias Evans gan Mrs. Jones, Angorfa, Llanrug.

Yr oedd y diweddar Mr. Elias Evans, Ty'n-y-Gorlan, Llanrug yn gyfaill annwyl i bawb. Bu'n gweithio yn Chwael y Glyn, Llanberis. "Boneddwr oedd Elias Evans" — dyna farn y wlad amdano. Bu farw yn 98½ mlwydd oed yn Ionawr 1945. Cadwodd yn heini a sion ei feddwl a'i gorff i'r diwedd.

CYFARCHIAD PENBLWYDD 97

Ni welais 'run 'Lias erioed — mor chwim
Wr chwai ar ei ddeudroed:
Tiws ei wên ym mrig henoed
Ac onid tair, yn gant oed.

Thomas Owen Penisarwaun

CYFARCHIAD PENBLWYDD 96

Elias, mae hwyl awen — i'w gyfarch
Gyfaill pur diabsen:
Dyn yw o nad â yn hen,
Aeth bron mor syth a brwynen.

Un cain, twt, 'mhen cant eto, — ni
rodia

Ond rhedeg a neidio;
Dilys na bydd a'i dalio
O wig i fryn, ewig ei fron!

Glan Rhyddallt

broblemaw'r ardal. Mae'r Aelod yn cymeryd i fyny y broblem o stad Nant y Glyn sydd heb ei chwblhau yn Llanrug ac hefyd yr oedi ynglŷn â sefydlu'r groesfan cerddwyr ar y sgwâr. Mae'r Cyngor yn bwriadu rhoi sedd yng Nghroeslon Marc ar ôl cwblhau'r gwelliannau yno.

Datgelwyd hefyd fod y Cyngor yn edrych i mewn i'r posibiladau o wneud gwelliannau ym Mhwl Moelyn mewn cysylltiad â'r Cynllun Creu Gwaith.

Mae newyddion mawr Cyngor Llanberis yn mynnu sylw ar y tudalen blaen y mis yma.

W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU GWRESOGI OLEW



BP heat
A SHELL-MEX



Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.

MODURDY
MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI

Ffôn: Portdinorwic 882

7 Perchennog: J. Evans

O SENEDDAU'R FRO

O SENEDDAU'R FRO

Be' dach chi'n feddwl o'r ffordd newydd sy'n osgoi Penllyn? Hwylus iawn, ynte! Ffordd lydan a syth. Ond mae 'na ryw beth arbennig wedi'i golli hefyd. 'Roedd 'na gymeriad i'r hen ffordd a golygfa wych i'w chael o Bont Penllyn i gyfeiriad yr Wyddfa. Er fod ffyrdd troellog yn beryglus maent yn hynod o ddiddorol. Ydi gogoniant Nant y Garth am ddiflanu hefyd?

Bu aelodau o Gyngor Cymdeithas Llanddeiniolen yn cyfarfod â swyddogion y Bwrdd Cynhyrchu Trydan yn Llanberis yr wythnos hon i drafod amryw o faterion yn ymwneud â'r plwyf yn gyffredinol.

Hefyd bu cyfarfyddiad rhwng aelodau Cyngor Llanrug a Llanddeiniolen ag Uwch Swyddogion y Bwrdd Trydan i drafod mater y Ganolfan Gymdeithasol y bwriedir ei chodi yn Llanberis.

Mae llawer o'r ffyrdd bach yn ardal Deiniolen a Dinorwig wedi cael difrod oherwydd y drafndiaeth drom a fu hydddynt yn ddiweddar. Mae'r Cyngor Cymdeithas yn pwyso ar i'r Bwrdd Trydan ail-wynebu'r ffyrdd hyn.

Yng nghyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug talwyd teyrnged i'r Cynghorydd E.G. Owen ar ei ymddeoliad o'r Cyngor Cymuned ar ôl nifer o flynyddoedd. Dyma air o deyrnged iddo gan un o'i gyd-ghyngorwyr.


DIOLCH

Mae Mr. Evan Gwyn Owen, Talgwynedd newydd ymddeol fel Cynghorydd Cymuned dros Ward Cwm-y-Glo o Gyngor Cymuned Llanrug. Mae'n siwr y caredm fel pentref ddiolch yn gynnes a diffuant iawn iddo am ei wasanaeth gwerthfawr am flynyddoedd.

Anaml iawn y mae'r canlyniadau yn gwneud cyfiawnder â'r ymdrech a'r amser a roddir yn wirfoddol ar Gyngor o'r fath. Mae hyn yn arbennig o wir yn ystod y sefyllfa ariannol sydd yn bodoli'n ddiweddar. Gan nad yw Mr. Owen ond gŵr ifanc eto, gobeithio daw tro gwell ar fyd, ac y caiff weld cyflawni rhai o'r gwelliannau y bu'n ymladd mor lew drostynt. Hyderwn y daw eraill ymlaen i geisio gwireddu ambell freuddwyd o'i eiddo. Sut bynnag y try bethau — diolch Evan.

Cafwyd noson dda a buddiol yng nghwmni yr A.S., Dafydd Wigley, pryd y trafodwyd nifer o

SIBRYDION O'R YSGOLION



Plant Ysgol Dolbadarn gyda thystysgrifau beicio 1976.

YSGOL BRYNREFAIL

DISGYBL NEWYDD YN YR YSGOL

Cafodd yr ysgol ddisgybl newydd dros dro y mis hwn pan ddaeth Gabi Hoffman, o Luneburg yn yr Almaen, i aros gyda Anwen Jones y chweched dosbarth. Bu Gabi yma am bythefnos ac yn ystod yr amser hynny bu'n mynychu gwersi gydag Anwen, ac yn ymuno yng ngweithgareddau'r ysgol. 'Roedd yn gweld y gyfundrefn addysg yma yn wahanol iawn i un Yr Almaen, lle mae'r ysgolion yn cael eu rhedeg ar sail debycach i goleg gyda'r disgyblion yn cael llawer mwy o ryddid. Y peth rhyfedd oedd bod yn well ganddi ein cyfundrefn ni, er fod ysgol Yr Almaen yn cychwyn am wyth yn y bore ac yn cau am un o'r gloch ac nid oes arholiadau yno.

DISGO

Cynhaliodd disgyblion y chweched dosbarth ddisgo yn yr ysgol nos Wener y 15ed o Hydref a gwahoddwyd disgyblion dosbarthiadau'r 5ed a 6ed pedair ysgol arall yno. Gwnaed elw sylweddol tuag at achosion da

YMWELIAD CYN-DDISGYBLION

Prynhawn ddydd Mercher y 13eg o Hydref rhoddwyd sgws anffurfiol i'r chweched dosbarth ar fywyd a gwaith coleg gan dri cyn-

ddisgyblion yr ysgol, sydd ar hyn o bryd yn fyfyrwyr yng ngholeg Prifysgol Cymru.

DRAMA OLAF HUGH LLOYD EDWARDS

Mwynhawyd noson allan gan rhyw ddwsin o ddisgyblion yr ysgol pan aethant i weld 'Y Leifiathan' (drama olaf Hugh Lloyd Edwards) yn cael ei pherfformio yn Theatr Gwynedd, Bangor nos Fawrth y 12ed o Hydref.



ADRIAN WAKEHAM
A ENILLODD FATHODAU
AM NOFIO

NOSON TÂN GWYLLT YN Y CHWAREL

Pan ddaw y rhifyn yma o'r *Eco* i'ch dwylo — bydd plant y fro yn brysur iawn yn paratoi eu coelcerthi ac yn ysu am y diwrnod mawr i'w cynnau.

Ond dyma i chwi hanesyn diddorol a ddaeth i ddwylo'r golgydd gan ddau arbenigwr ar hanesion yr hen chwarel sef Mr.O.H. Jones, Y Felinheli (gynt o Hafoty Dinorwig) a chyn oruchwyliwr y chwarel a Mr. Harry Jones Tŷ Uchaf, Ceunant.

Pan ddaeth Syr Michael Duff Y Faenol yn 21 oed ar y 3ydd o Fai 1928 ac i feddiant y Stad aeth rhai o'r chwarelwyr ati i adeiladu coelcerth anferth ar ben Twll y Mwg yn Chwarel Dinorwig. Gosodwyd hwn ar y safle arbennig yma er mwyn i deulu'r Faenol gael ei weld. Taniwyd y goelcerth ar ôl iddi nosi. Saethwyd rocedi i'r awyr a gwelwyd yr olygfa liwgar yma gan nifer fawr o'r ardalwyr o'r dyffryn islaw.

Ger Gallt y Foel saif creigiau lle bu Huw David Jones o Ddeiniolen a Robert Owen Thomas, Tan y

Foel ar yr un diwrnod yn eu llenwi â phowdwr saethu. Taniwyd y ffiws mewn 21 o dyllau a rheini i chwythu naill ar ôl y llall fel "teyrnged gynnau" i Syr Michael.

Teyrnged go lew i "ŵr yr aur a'i faenol" ynte?

COD DIOGELWCH TÂN GWYLLT

Blant, — beth bynnag wnewch chi darllenwch hwn cyn meddwl mynd i'r siop i brynu tân gwyllt.

1. Gnewch yn siwr fod y tân gwyllt wedi eu cau mewn bocs, tynnwch nhw allan fesul un, a chau'r bocs yn sydyn.

2. Dilynwch y manylion sydd ar y tân gwyllt yn ofalus; peidiwch byth â'u darllen gyda fflam noeth — defnyddiwch dorch.

3. Taniwch flaen y ffiws hyd braich i ffwrdd — gyda taniwr tân gwyllt pwrpasol neu wic ffiws fyddai orau.

4. Cadwch yn glir oddi wrth y tân gwyllt.

5. Peidiwch byth â mynd yn ôl at dân gwyllt unwaith i chwi ei danio — gallai ffrwydro yn eich wyneb.

6. Peidiwch byth â thaflu tân gwyllt.

7. Peidiwch byth â rhoi tân gwyllt yn eich pocedi.

8. Cadwch yr anifeiliaid i mewn.

9. Peidiwch â chwarae'n wirion gyda tân gwyllt.

Peidiwch da chi â bod yn destun newyddion neu erthygl yn *Eco* r Wyddfa mis nesa!

Byddwch yn ofalus.



Rhai o blant Llanrug yn paratoi eu coelcerth.

10% oddi ar Bapur Wal a Phaent Leyland & Jellipex yn


E.WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS FFÔN 491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

HEBOG

Bach

Cyhoeddir y dudalen hon gyda chydweithrediad Gwasg Gwynedd, cyhoeddwy'r HEBOG, y comic misol.




WIL WIRION A FFATI FFOWC



ROEDD CYSTADLEUAETH I DDARGANFOD Y BACHGEN MWYAF TRWSIADUS YN CAEL EI CHYNNAL YN NEUADD Y DREF.



OND AR Y FFORDD I'R NEUADD!



FE FU'N RHAI D I WIL FYND ADREF I NEWID.



OND ER HYNNY, FE AETH WIL I WELD Y CYSTADLEUAETH. Y FONESIG MATILDA MEREDUDD OEDD YN BEIRNIADU.



GYDA DEG PUNT YN EI BOCED ROEDD WIL YN GALLU FFORDDIO LLOGI TACSI I FYND ADREF.



AC YNA —!



FFILMIAU!

YNYS Y TRYSOR (a chartwnau eraill)
GWAED AR Y SÊR
CYNGERDD OLAF EDWARD H.
YR AFON

Tach 3	Neuadd y Parc Cenedlaethol, Nant Peris. (7.45)
Tach 4	Festri Capel Coch, Llanberis (6.00 a 7.30)
Tach 11	Neuadd Ysgol Brynrefail, Llanrug (6.00 a 7.30)

Bydd 'Ynys y Trysor' a chartwnau eraill yn dechrau am 6.00

Bydd 'Gwaed ar y Sêr', 'Edward H.' a'r 'Afon' yn dechrau am 7.30, oni nodwyd yn wahanol

Llyfrau

MYNYDDOEDD Y DRINGWR CREIGIAU CYNTAF

'Wrth geisio enwi'r 'ddringfa
raig gyntaf erioed', fodd bynnag,
nae'r haneswyr dringo yn cyfeirio
el arfer at esgyniad cyntaf Teras
Dwyreiniol Clogwyn Du'r Arddu
ym 1798 'gan y 'llysieuwr, Y
'archedig William Bingley'.
Singley yn sic a gofnododd y
ddringfa hon, o anhawster
cymedrol' yn ôl y llawlyfr.

Ond Peter Bailey Williams (1763
- 1836), Rheithor Llanberis a
Llanrug, a mab Peter Williams yr
Esboniwr (a brodor o Landy-
aelog, Sir Gaerfyrddin, felly) a'i
urweiniodd ac a'i ysgogodd:

'he started the wild idea of
attempting to climb the
precipice,' ebe Bingley, 'I was
too eager in my pursuit (of plants)
to object to the adventure.' Wedi
cyrraedd y crux, 'Mr. Williams
having on a pair of strong shoes
with nails in them... requested to
make the first attempt and after
some difficulty he succeeded.' A
dyma'r darn a ddisgrifiwyd gan un
mwdur fel 'the germ of the idea of
the use of the rope for rock work'

'We had along with us a small
basket to contain our provisions,
and hold the roots of such plants
as he wished to transfer to his
garden; this he carried behind him
by means of a leather belt
fastened round his waist. When
therefore he had fixed himself
securely to a bait of the rock, he
took off his belt, and holding
firmly by one end, gave the other
to me: I laid hold, and, with a
little aid from the stones, fairly
pulled myself up by it.'

Mae'n anodd credu y buasai
Peter Williams wedi arwain gŵr
dieithr i'r fath le arswydus yr olwg
(ba mor rwydd bynnag i
ddringwyr cyfoes) ac yntau heb
fod yn hen gyfarwydd ag esgyn
hafnau'r clogwynni. A oes
awgrym yma nad oedd ei genhed-
laeth ef mor anghyfarwydd â
cheisio adloniant ar y creigiau ag y
tybiasom?"

Dyma ddarn o ysgrif loan
Bowen Rees ar 'Fynyddwyr
Cymru' yn ei lyfr newydd
MYNYDDOEDD gyda darluniau
gan John Wright. Cyhoeddwyd
gan Wasg Gomer. Pris £1-75.

CHEWCH CHI DDIM PRYNU RHAIN

CYHOEDDWDYD nifer o lyfrau
gan Cyngor Llyfrau Cymraeg ar
gyfer Llyfrgelloedd yn unig. Felly
chi sydd yn darllen y golofn hon

yn yr Eco ac yn mynychu llyfr-
gelloedd y fro - cofiwch am-
danynt. Ni allwn adolygu y llyfrau
i gyd mewn gofod mor fychan a
hwn - ond gallaf eich sicrhau y
cewch oriau o ddifyrrwch yn eu
darllen. Ni ellwch brynu'r llyfrau
yma.

Detholiad o Storiâu O. Henry -
troswyd gan J. Ellis Williams.

Ond 'Doeddwn i Ddim yn Lloerig
- Diana Gruffydd Williams.

Mebyd - Michelle Lorraine.
Cyfieithiad gan Rhiannon Davies.

Meri Go Rownd a Storiâu Eraill
Golygydd W.J. Jones.

Dial yn y Dwyrain - Dekobra
Cyfieithiad gan W.J. Jones.

Aberconwy.

Y Brethyn Glas - Ifan Parri o
Bwllheli.

GALW AELODAU CLYBIAU IEUENCTID AELWYDYDD, CLYBIAU FFERMWYR IEUAINC Y FRO

Mae cystadleuaeth newydd ar y
gweill gan y Cyngor Llyfrau
Cymraeg i chwi aelodau o'r
clybiau uchod.

Mae'r Cyngor am i chwi
gyflwyno trwy gymorth Sleidiau,
Tapiau neu Gyfrwng arall unrhyw
lenor o'ch sir.

Ceir y manylion a'r rheolau oddi
wrth Golygydd Eco'r Wyddfa, -
Gwên-y-Wawr, Glanffynnon,
Llanrug, Ffôn Caernarfon 3719.

DYDDIADAU I'W COFIO

Rhagfyr 3 Eisteddfod Egl-
wysi Sant Peris a Sant Padarn
Rhagfyr 9 Cinio Nadolig Pen-
siynwyr Llanrug.

Rhagfyr 10 Cinio Nadolig
Sefydliad y Merched, Deini-
olien.

Rhagfyr 11 Cinio Nadolig
Cangen Plaid Cymru, Deini-
olien.

Rhagfyr 20 Cinio Nadolig
Clwb Methodig Eryri.

1977 Mawrth 17 ac 18
Eisteddfod Capeli MC Llan-
beris a Nant Peris.

Wavell Roberts CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FROI

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus
Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

COFIO AMSER CALED YN Y CWM

Mae Cwm-y-Glo, fel llawer Cwm arall, wedi newid llawer yn ystod yr
hanner can mlynedd sydd wedi mynd heibio. Llaweroedd o wynebau
annwyl wedi mynd i orffwys yn yr hen "Boncan Brynllan".



Parciau Gleision a Mary Grace
(nid wyf yn cofio ei chyfenw) y
hi oedd yn helpu ym mhentref
Cwm-y-Glo.

Cerdded oedd y drefn, wrth
gwrs, ac nid mynd gyda 'beic' yr
amser honno. Ond 'rwyf yn cofio
iddynt gael rhyw 'push car' ac
olwynion beic ysgafn arnynt i
gario'r parseli i fyny tua Clwt-y-
Bont, a minnau weithiau yn mynd
gyda rhai o'r parseli gyda sach ar
fy nghefn tua Brynrefail.

Y PENSIWN

Byddai y 'pension' yn cael ei
dal ar ddydd Llun a dydd
Gwener ac, wrth gwrs, 10/- oedd
pensiwn yr henoed.

Cofiaf yn dda iawn am yr hen
wraig honno o ymyl Bedwagoed
Fachwen, yr hen Martha Owen,
yn dod yn wastad am y pensiwn
bychan yma. Dwy esgid dyn oedd
ganddi am ei thraed, ac weithiau,
un o bob pâr, a chyda hi deuai ei
merch. Nid oedd y ferch yma fel
dynes gyffredin arall, er ei bod tua
deg-ar-hugain oed. Cariai babi dol
glwt yn ei chesail bob amser, ac yr
oedd hyn yn gwneud i'r plant
ieuengaf yn y pentref gael hwyl
fawr.

Y SIOP

Gyda gwaith y post yr oedd
cownter y siop, ac yr oedd yn siop
brysor tros ben. Llawer iawn o
nwyddau yn cael eu rhoi y tu
allan, a dyna oedd fy ngwaith i ar
ôl anfon y postmyn allan.

William Roberts oedd y
perchennog, ac ef oedd yn talu i
mi, a'r cyflog oedd 25/- yr
wythnos, am tua 13 o oriau y
dydd - a mwy o oriau ar ddydd
Sadwrn.

Er bod y cyflogau yn fychan, yr
oedd y nwyddau yr amser honno
i'w gweld yn rhad iawn, er
enghraifft, 'tomatos' am 2½d y
pwys, 'cabbage' 1½d yr un,
'cauliflowers' am 1½d a 2d yr un,
bwndal o 'carrots' 1½d ac mi
fuasech yn cael clamp o afal neu
oren am 1d. Calen fawr o halen
am 1d a siwgr am 2½d y pwys
a'r te rhataf am 3d y chwarter.

Talu'r hen a phrynu'r newydd
oedd y drefn yr amser honno, a
llaweroedd yn methu talu'r hen,
ac yn rhoddi rhyw 6d neu 1/- ar
yr hen fil.

Ond pobl onest mewn adeg
tlawd oedd pobl y Cwm.

Cofiaf yn dda iawn am lawer o'r
rhai hynaf, pan oeddwn yn
gweithio yn y 'Post Office', y
Llythyrdy, a bûm yn talu pensiwn
yr henoed a phensiwn i rai oedd
wedi colli anwyliaid yn ystod y
Rhyfel Byd Cyntaf ac eraill oedd
wedi cael eu niweidio yn y rhyfel
fudr honno.

CYFLOGAU BACH

Ie, adeg tlawd oedd yr adeg
honno, pan oedd cyflogau yn y
chwarel a phob man arall mor
fychan. Ond y peth gorau 'rwyf
yn ei gofio am Cwm yw, ein bod
fel un teulu mawr, a phawb am
helpu ei gilydd pan fyddai rhyw
amgylchiad trist yn digwydd
mewn rhyw gartref.

Roedd y Llythyrdy yn lle pwysig
iawn yr adeg honno gan fod Clwt-
y-Bont, Fachwen, Brynrefail a
Craig Dinas (Stabla) yn dod o dan
Cwm, a phob llythyr i'r pentrefi
yma wedi eu cyfeirio i Cwm-y-Glo
R.S.O.

DECHRAU'N GYNNAR

Byddwn wrth y cownter y post
tua saith yn y bore a phedwar o
bostmyn yno yn disgwyl i ddos-
barthu y llythyrau a'r parseli.
John Davies i mi oedd un o'r rhai
hynaf, ac yr oedd o yn dosbarthu
Brynrefail, Craig Dinas a Chlwt-y-
Bont. Hefyd cofiaf Robert Philips
(Bob Stamps) a John Hughes

Hogiau Lleol yn Llwyddo

Cafodd 40 o weithwyr lleol eu
cyflwyno gyda thystysgrifau ar ôl
wblhau cyfnod llwyddiannus yn
tysgu sgiliau arbennig a oedd yn
tysylltiedig â Phrosiect
Cynhyrchu Trydan Dinorwig.
Cyflogir y gweithwyr gan y cwmni
IBZ.

Addawodd y Bwrdd Canolog
Cynhyrchu Trydan y byddai 70%

o'r swyddi yn mynd i weithwyr
lleol. Allan o'r 1,200 a gyflogir ar
hyn o bryd, mae 89% yn lleol.

Dywedodd Mr. Iorwerth Ellis,
Rhelowr y Prosiect, ar ôl clywed
am y canlyniadau ei fod "yn
hynod falch fod cymaint o bobl
leol wedi cael gwaith yn Ninorwig
a'u bod wedi ymateb mor ffafriol
i'r her o ddysgu sgiliau newydd."

EISTEDDFOD GADEIRIOL BETHEL A'R CYLCH

a gynhelir yn

Y NEUADD GOFFA, BETHEL

NOS IAU a NOS WENER,
TACHWEDD 11 a 12, 1976.

BEIRNIAID:

Llenyddiaeth ac Adrodd: Mr. Glyn Owen, B.A., Pwllheli
Cerddoriaeth: Mr. Rowland Wyn Jones, Y Coleg Normal, Bangor
Arlunio: Mr. S.R. Bennett, Bethel

CYFEILYDDION:

Mr. Bill Evans, MUS.BAC., Bethel
Telynores Ann Hopcyn, Mus.Bac., Bethel

LLYWYDDION:

Nos Iau: Mrs G. Alwen Williams, Biwmares
Nos Wener: Mr. Gwilym Roberts, Bethesda

ARWEINYDDION:

Mr. Islwyn Jones, Bethel; Mr. Alwyn Jones, Bethel;
Parch. E. Lloyd Davies, Bethel; Parch. W.R. Williams, Felinheli

Gwobrau hael, Rhaglen 5c oddi wrth yr Ysgrifennydd,
Mrs. F. Owen, Bryn Teg, Bethel

Enwau'r cystadleuwyr ar y Canu a'r Adrodd i fod yn llaw'r Ysgrifenn-
ydd erbyn Tachwedd 6, 1976.



Llwyth iawn ar un o fysus Gwyn Waunfawr. Oes rhywun d'ach chi'n 'nabod yn y llun? Trwy garedigrwydd Mrs. Owen, Bod Awen, Llanberis

OLION HEN OLWYNION

gan R.W. Rhosbodruall

Sôn yr oeddwn fod yr Hen Êl yn ffefryn gan lawer ac yn barod ei gymwynas i unrhyw un, âi ar ei alw. Mae llu o ffraethebion am hanes yr Hen Êl yn ei ymwneud â phobl a deithiai ar ei fws o dro i dro.

Arferiad cario ambell i lo bach mewn sach neu fochyn bach, gwydd neu dyrchi, cyn y Nadolig, cyn dyfod cyfyngiadau y *Road Traffic Act 1930*. Ar ôl hyn ni ellid agor y Drws Brys, na rhwystro y llwybr ato, er diogelwch y teithwyr.

Rhoddodd rhyw hen ffermwr o ochrau'r Nant Ucha' gynnig arni efo'i sachaid o lo bach, wrth Offis Cocyn. Tra'r ymresymai'r gyrrwr efo'r hen wr, dwedodd Elis, "Be' 'dach chi'n feddwl sy' gynnon ni? Arch Noa?" Fe fentrodd Elis y llo am y tro, "rhag partio dau frawd" medda fo.

ENWAU'R BYSUS

Enwid y bysus, yn hytrach na'u rhifo ac yr oedd deg bws erbyn y diwedd. Fe'i gwelafl nhw, yn un rhes, pan dynnwyd y llun olaf ym Mai 1936 ar Faes Parcio Stesion Wyddfa. Roedd yr hogia yno i gyd, yr Hen Go' yn eistedd ar gadair freichiau, gyda Jac a Wiff y ddau gi. Yn un rhes, ochr yn ochr, 'roedd Y Leion Fawr (TD) a'r Leion Fach (EH) Leioness Coets Felen, G.M.C. Goch a'r G.M.C. Las, Leion (WW), y Vulcan, Teigar 606, Teigar 1156 a'r Chev Bach (Mighty Atom). Aeth y cwbl trosodd i Gwmni'r Crosville pan werthwyd y busnes yn 1936.

FFRWYDRIAD YN Y RADIATOR!

Mae enw pob bws, yn dwyn rhyw atgof, am dro trist neu drwstan. Yn niwedd y dau-ddegau 'roedd Leyland Fawr, 32 sedd, heglog a Leyland Fer, 26 sedd, yn gwasanaethu. Ar ein

ffordd rhyw fin nos Sadwrn o'r dref yn y Leyland Fer a Wil Ffowc yn gyrru, eisteddai hen bensiynwr o Sais, ar ei ddwy fagl yn y sedd gyntaf ger y drws, pan ddigwyddodd ffrwydriad yng nghyffiniau'r radiator, gan lenwi'r bws â chymylau o stêm. Wrth fferm Lleiniau, Llanrug oedd hyn. Pan wasgarwyd y cymylau, gwelwyd mai gŵr y baglau oedd y cyntaf allan, ond hebddynt. Yn ei ddychryn, neidiodd allan, gan anghofio ffyn ei bensiwn. Dim ond peipen ddŵr poeth o'r radiator a dorrodd.

HWYL HEFO HOGIA' BYSUS ERAILL

Pan fyddai egwyl i'w gael yng Nghaernarfon, yna byddai'n rhaid mynd i'r Cei Llechi i barcio, a llawer o hwyl a geid efo rhai o hogiau Moto' Coch, Trefor, yn enwedig Dic Tŷ Gwyn a John Phylip, Robin Huw, Express, Rhostryfan, Dafydd Dicsi, Bob John Carmel Huw Tryfan Ranger ac Owen Elias, Mountaineer, Hogia'r Bysus Gwyn, Waun, William Jones Beddgelert, Twm Pyrs a Guto-Bysus Brown, Hogia Rhiwen, Owen Richard, Huw Llan, Wil Ned a Wil Afon Goch, heb anghofio Leslie Christison a Robin Jos. George Dinas Dinlle a'i fws, Bean. Dyna'r hen griw fyddai'n cludo pobl y wlad i ffair a marchnad, 'Steddfod a Sasiwn, Cymanfa a Chyngerdd i'r dre'. Cyfarfyddid yng Nghaffi'r Maes pan fyddai Mrs. Huws a'i phriod yn ei gadw. Meri o Dalysarn ac Annie o'r dre' yn gweinyddu. Paned o de a phastai gig a digon o sôs poeth ar y

bwrdd pan fyddai gennym bres. Te a sgon neu byns pan fyddai'r pwrs yn isel.

SGRAM YN DRE

Byddai Frank D.M. yn sgut am sôs, ac wedi bwyta pastai gig a'i throchi mewn sôs, rhaid oedd wedyn rhoi sôs ar y sgons i'w trafylneu cyn ei hel hi am y bws, i gychwyn, bum munud i'r awr, o flaen Crosful.

Os byddai golwg am aros y pnawn yn y dre', ar ddiwrnod o'r wythnos, yna delid ar y cyfle i fynd i'r Baddonau Cyhoeddus, yn yr Institiwt ar Allt Pafiliwn ac ymolchi nes byddem yn 'spancin', chwedl hogia'r dre'.

Os byddem ar ein cythlwng ac arian parod, yna am sgram i'r Ynys neu Glynog Temprans. "Te plaen ynteu cinio?" fyddai'r ymholiad. Cinio am ddeunaw a the plaen gyda phopeth fel danteithion, am swllt (5c). Catrin, yn eneth ifanc, fyddai'n gweinyddu neu Miss Jones. Byddai hwyl i'w gael bob amser ar bryfocio Catrin yr Ynys. Os byddai'r Ynys yn llawn, yna i'r Clynog at Mrs. Huws a chaem groeso caredig a llond bol i'w fwyta, yn rhesymol iawn. Cofiai am ei chwsmeriaid o flaen y Nadolig a byddai'r byrddau wedi eu hulo â danteithion tymhorol ar liain gwyn glân.



**BETH AM
GYFARCHION
NADOLIG I'CH
FFRINDIAU YN YR
ECO?**

**50 CEINIOG
YN UNIG**

Anfoner manylion a thâl i John Roberts, Brynawelon, Ffordd yr Orsaf, Llanrug erbyn dechrau Rhagfyr.

BRYN REFAIL

Y GYMDEITHAS LENYDDOL

Cafwyd cyfarfod agoriadol o'r Gymdeithas, nos Iau, Hydref 7ed ar ffurf Noson Lawen dan lywyddiaeth Mr. D.G. Ellis. Cymerwyd rhan gan ddoniau lleol a phrofodd yn noson lwyddiannus a hwyliog. Trefnwyd y rhaglen gan Mrs. Eifiona Jones a Mrs. L.P. Williams a pharatowyd lluniaeth gan swyddogion y Pwyllgor. Cafwyd gair o ddiolch gan Mr. G.W. Williams a Miss M. Hughes. Bydd y cyfarfyddiad nesaf nos Iau, Tachwedd 4ydd pryd disgwylir yr Athro Gwilym H. Jones, Llandegfan i roi darlith ddarluniadol ar y teitl - 'Gwlad Palesteina.'

MEWN YSTYBAI

Anfonwn ein cofion at rai o'r ardalwyr sydd mewn gwahanol ysbytai. Deallwn fod Mr. W.F. Williams, Glanffrwd a Mr. Bob Francis, Bryn Cottage yn gwella yn Ysbyty Gallt y Sil. Dymunwn adferiad buan i Mrs. Katie Jones, Adwy'r Dŵr sydd ar hyn o bryd yn yr un Ysbyty mae Mrs. Nell Jones, Penllyn (gynt) a gyfarfu â damwain, a Mrs. Gwyneth Griffith, er yn byw yn Llanrug yn un o blant Brynrefail, sydd wedi derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Dewi Sant. Carem ddymuno yn dda hefyd i Mrs. Jennie Hall, Cytir sydd ar hyn o bryd yng nghartref Plas y Coed, Bangor.

CYMDEITHAS FEIBLAU

Mewn cyfarfod undebol a gynhaliwyd yn Eglwys y Santes Helen Penisarwaun bawn Sul, Hydref 3ydd, cyflwynodd nifer o blant yr Ysgol Sul eitem lafar fel rhan o weithgareddau'r cyfarfod. Y rhai a gymerodd ran oedd: Janet a Christine Jones, Iestyn a David Jones, Dilwyn Morris, Llinos Roberts a Kathy Williams.

CYNGERDD

Dan nawdd Clwb y Mamau nos Iau, Hydref 14eg, cynhaliwyd cyngerdd amrywiol yn y Festri. Cymerwyd rhan gan Barti Glynrhonwy (arweinydd Ted Morris) ynghyd ag Annette, Olwen a

Marina B. Roberts, Dinorwig. Arweinydd y noson oedd Mr. Islwyn Williams, Godre'r Coed. Diolchwyd i'r rhai a gymerodd ran gan Mrs. Rhian Jones.

GWYL DDIOLCHGARWCH

Cynhaliwyd tri chyfarfod o ddiolchgarwch yn y Capel, ddydd Llun, Hydref 18ed. Yng ngwasanaeth y bore, cymerwyd rhan gan Mri. B. Roberts, D.G. Ellis, G.W. Williams a Maurice Jones. Yr oedd cyfarfod y prynhawn yng ngofal tua deunaw o blant yr Ysgol Sul ynghyd â chwech o ieuencid. Trefnwyd y rhaglen gan Mrs. L.P. Williams ac yn cynorthwyo gyda'r gwaith yr oedd Mrs. Shirley Roberts a Miss A.M. Williams a oedd hefyd yn cymryd y rhan ddefosiynol. Yn oedfa'r hwyr, cymerwyd rhan gan Mri. I. Williams, R.W. Evans, E. Roberts a Mrs. L.P. Williams. Llywyddwyd yr holl weithrediadau gan Mr. G.W. Williams a chafwyd cyfarfodydd grymus a bendithiol.

SEFYDLIAD Y MERCHED

Cyfarfu'r gangen nos Iau, Medi'r 16eg pryd y cafwyd sgwrs hynod o ddiddorol gan Mrs. Myra Bryn Hughes, Llanberis ar ei hymwelid â'r Amerig. Cafwyd cyfle hefyd i longyfarch Mrs. Pat Jones, Cae Coch, am ennill tair gwobr am arlunio yn Sioe Amaethyddol Gogledd Cymru yng Nghaernarfon a hefyd ei merch Anita a wobrwyd yn yr adran coginio.

CLWB YR HENOED

Yn ystod y mis cafwyd dau gyffwyddiad o'r Clwb dan lywyddiaeth Mr. Griffith Pritchard, Glyn Afon. Nos Fawrth, Hydref 5ed gwa-hoddwyd Mr. Idris Owen, Waun-fawr i'w plith a chafwyd noson ddifyr dros ben yn ei gwmni yn adrodd llawer o'i hen atgofion. Gwnaed y te gan Mrs. Williams Minffordd, Mrs. Knox a Mrs. Maxwell. Ar Hydref 19eg croes-awyd Mr. Tegid Jones, Caerdydd i'r Clwb a oedd ar y pryd gartref yn 12 Trem Eilian am ychydig seibiant. Dangosodd nifer helaeth o ffilmiau o olygfeydd yn y wlad hon ac ar y Cyfandir. Paratowyd lluniaeth gan Mrs. Jennie Hughes a Mrs. Jennie Williams. Aeth amryw o aelodau'r Clwb bawn Gwener Hydref 8ed i Gvmanfa Ganu

PENISARWAUN

ARWERTHANT

Cynhelir arwerthiant yn Neuadd yr Eglwys am 6.30 nos Wener Tachwedd 19.

CLAMP O FADARCH

Cawsom glamp o farlarch (mysierwm ar lafar gwlad) gan Mrs. E.M. Pritchard, Gwynfa, Brynhyfryd. Wrth gasglu rhai un bore daeth ar draws un oedd yn mesur 10½ x 10 ar draws ac yn pwyso 15 owns.

MUDO

Bydd Berwyn, ŵyr bach Mr. a Mrs. H. Davies, 9 Llys y Gwynt yn symud gyda'i fam a'i dad o'r Fali i Abingdon. Mae Penisarwaun yn dymuno'n dda iddyn nhw.

PRIODAS

Priodwyd y Parchedig Geraint Wyn Edwards a Miss Betty Wyn Lloyd gan Archesgob Cymru, y Gwir Parchedig Dr. G.O. Williams yn Eglwys St. Helen, yn ddiweddar. Merch o Fangor yw Mrs. Edwards ac mae'r ardalwyr yn ei chroesawu'n frwd i'w plith ac yn dymuno bob llawenydd i'r ddau yn y dyfodol.

NOSON LAWEN

Bydd Parti'r Heulwen yn cynnal Noson Lawen yn "Clwb y Gegin" Glasinfryn nos Wener Tachwedd 5ed.

DIOLCHGARWCH

Cymerwyd y gwasanaeth bore Sul yng Nghapel Glasgoed gan blant yr ysgol Sul, a phregeth gan y Parch. William Jones, Bwlân yn y prynhawn.

ANRHEG

Yng Nghlwb yr Heulwen ar Hydref 26 anrhegwyd y Ficer ar achlysur ei briodas ag anrheg ac hefyd anrheg fechan gan Barti'r Heulwen.

YR YSGOL GYNRADD

Cyn cau am yr wythnos o wyliau fe ynunodd y plant i gynnal Gwasanaeth Ddiolchgarwch, pryd y gwelwyd yr ysblander o ffrwythau a llysiau a roddwyd gan y plant ar gyfer Cartref Bontnewydd. Dymuna'r prifathro ddiolch i'r rhieni am eu haelioni.

Cynhelir Noson Goffi ynghyd â Byrddau Gwerthu yn yr ysgol nos Wener, Tachwedd 26ain.

BRYSIWCH WELLA

Drwg iawn oedd gennym glywed am ddychweliad Mr. Llewelyn Jones, 5, Llys-y-Gwynt i Ysbyty Bryn Seiont. Brysiwch wella Llew.

Mae Mr. Hugh Davies wedi ei symud o Ysbyty Abergele i Ysbyty Bryn Seiont. Dymunwn adferiad buan iawn iddo.

Bu Mr. Griffith O. Williams, Cae Hywel o dan driniaeth law feddygol yn Ysbyty Môn ac Arfon ym Mangor. Gobeithio y caiff wellhad buan.

YMWELYDD O'R ALMAEN

Bu Gabi Hoffman, geneth 16 oed o Luneburg, Gorllewin Yr Almaen yn aros gydag Anwen Jones, Meillionydd am bythefnos ym mis Hydref. Dechreuodd y ddwy lythyru â'i gilydd bum mlynedd

yn ôl. Yn ystod ei harhosiad bu'n mynychu Ysgol Brynrefail ac yr oedd yn gymeradwy a phoblogaidd iawn ymysg disgyblion y chweched dosbarth. Bwriada Anwen ymweld â'i chartref hi yn yr Almaen y flwyddyn nesaf.

SEFYDLIAD Y MERCHED

Cyfarfu aelodau'r Sefydliad yn yr ysgol nos Fawrth, Medi 28. Ni chafwyd neb i'w diddori'r tro hwn ond treuliwyd yr amser yn mynd drwy'r llythyrau misol ac yn trafod gwahanol faterion. Dymunwyd yn dda i Mr. a Mrs. Humphrey Williams ar ddathlu eu priodas ruddem ac hefyd dymuniadau gorau iddynt yn eu cartref newydd ym Methel. Longyfarchwyd Ella, merch Mr. a Mrs. G.R. Williams 'Llys Myfyr' ar ei phriodas. Estynwyd croeso'n ôl i Miss F. Williams a Mrs. Clarke, 'Isgaer' ar ôl gwaelled a dymunwyd adferiad buan i Mrs. Pat Jones a Mr. Hughie Davies. Darparwyd y te oedd Mrs. Humphrey Williams, Miss F. Williams a Mrs. Clarke a diolchwyd iddynt gan Mrs. Percy Williams.

YN GWELLA

Da deall fod Mrs. Barbara Williams Gwyddfod yn gwella ar ôl triniaeth llawfeddygol yn ysbyty Wrecsam. Bu yng Ngharrog gyda'r ferch ar ôl dychwelyd o'r ysbyty a da ei gweld yn ôl yn ein mysg unwaith eto.

NOSON TÂN GWYLLT

Cynhelir Noson Tân Gwyllt Penisarwaun yn yr un cae ag a ddefnyddiwyd y llynedd. Ein diolchiadau i Mr. John Jones, Cae Corniog, am ofalu fod gennym gae at yr achlysur. Os na fydd y tywydd yn ffafriol, newidir y noson.

MORWYN Y WAWR

Meinwen ar lethrau'r mynydd - a welaf

Eilwaith yn nrych nentydd,
Daw yn ieuencid y dydd
A'i dwylo ar y dolydd.

Tony Elliot, 3, Bryn Eglwys,
Penisarwaun.

E.W.&M.WILLIAMS



Y BECWS DEINIOLEN

FFÔN : LLANBERIS 232

BARA FFRES - TEISENNAU BLASUS!

(Rydym yn arbenigo mewn teisenau Priodas)

**DOSBARTHWN BOB LLUN, MERCHER A GWENER
YN NEINIOLEN, DINORWIG, FACHWEN,
PENISARWAUN, LLANRUG a BETHEL**

**E&
E.M.GREEN**

**SIOP
GRON**

PENISARWAUN

**Nwyddau Groser
Ffrwythau a Llysiau Ffres**

**Dewis rhagorol
Croeso cartrefol**

CWM-Y-GLO

DYRCHAFIAD

Ein llongyfarchiadau calonnog i'r Rhingyll Gwyrfaï Jones ar gael ei ddyrchafu'n Arolygwr gyda'r heddlu. Wedi gwasanaethu mewn amryw o leoedd, bydd yn awr yn symud o Riwbabon i'r Amwythig. Mab i Mr. a Mrs. Hugh Jones, Seiont House, yw Gwyrfaï a chyd-lawenhawn fel pentref yn ei lwyddiant.

PRIODAS

Ar Hydref 2ail priodwyd Gwilym Eifion, mab Mr. a Mrs. H.G. Jones, Bod Elan a Avril Ann merch Mr. a Mrs. J.A. Pritchard, 11, Stryd Ceunant, Llanberis. Pob bendith i'r pâr ifanc ac rydym yn hynod o flach eu bod yn cartrefu yma - yn Hafoty.

FFARWELIO

Wedi cael ei gwmni difyr am dri mis, chwith oedd gan ei fam, ei deulu a phobl y Cwm ffarwelio â Mr. Elfed Hughes, Alexandria. Brysied ef a'i deulu bach o Seland Newydd adref eto.

CRWYDRO'R BYD

Dyna yw hanes Mr. Kenneth Yesson, mab Mr. a Mrs. Yesson, Tŷ Canol, sydd fel peiriannydd yn y maes olew, wedi cael cyfle i ymweld a gweithio mewn llawer o wledydd tramor. Bu gartref am ysbaid o Singapore, cyn hedfan i Halifax, Nova Scotia, lle bydd yn drilio gyda thîm ar rig olew.

Un arall a gafodd brofiad diddorol ac anghyffredin yn ddiweddar yw Leslie Vaughan Williams, sydd yn 'Radio Operator' ar y ffrigad HMS Ajax. Cafodd y llong yr anrhydedd o dderbyn Rhyddid Tref Ajax, Ontario, Canada, tref a ddewisodd ei henwi goffau criw y llong ryfel Ajax, a gymerodd ran ym Mrwydr yr Afon 'Plate'. Mae Leslie - sy'n ddeunaw oed - yn fab i Mr. a Mrs. H.W. Williams, Nant Forgan ac yn ŵyr i Mrs. K. Jones, Penlon, Llanberis.

MERCHED Y WAWR

Ar y 13eg o Hydref cyfarfu y gangen leol o dan lywyddiaeth Mrs. Hannah Jones, Llanberis yn yr ysgol gynradd.

Croesawyd aelod newydd, sef Miss Mat. Pritchard Rhosbodreual i'n plith a dymunwyd wellhad buan i Mrs. Meira Pritchard (Cefn Llwyd gynt). Darllenodd yr ysgrifenyddes lythyr o'r Urdd yn diolch am rodd ariannol a anfonwyd. Rhoddir y te i Glwb y Methedig, Llanberis ar ddydd Llun, Hydref 25 gan Mrs. Gwyneth Chick, Tan y Bryn a Mrs. Nellie Pritchard, Llanberis.

Cafwyd adroddiad cryno o Bwyllgor Arfon gan Mrs. Eluned Hughes, Hyfrydle. Hi hefyd, gyda Mrs. Margaret Williams, Nant Forgan fydd yn cynrychioli'r gangen yn Aberystwyth ym mis Tachwedd.

Y wraig wadd oedd Mrs. Morgan Jones, Waunfawr a daeth Mrs. Pat Jones i'w chynorthwyo. Cafwyd arddangosfa wych o waith - llaw y ddwy a swynwyd pawb gan geinder y brodwaith - a wnaed ganddynt. Rhoddwyd y te gan Miss Olwen P. Jones a Mrs. Evans, Gwylfa, a hwy hefyd roddodd y raffl a enillwyd gan Mrs. K. Watkins, Dolwen. Diolchwyd i'r gwestai gan Mrs. Williams, Nant Forgan a Miss E. Hughes, Tan y Graig. Cynhelir y cyfarfod nesaf Tachwedd 17. Edrychir ymlaen am noson ddifyr yng nghwmni Mr. a Mrs. Glyn Williams, (Llwyncoed). Byddant yn dangos ffilmiau.

GŴYL DDIOLCHGARWCH

Cynhaliwyd Gŵyl Ddiolchgarwch am y cynhaeaf yn eglwys Sant Gabriel ar ddydd Sul a dydd Llun 17 a 18 o Hydref. Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid fore Sul gan y Rheithor ac ef hefyd a arweinai wasanaeth y plant. Diolch i bawb fu'n dysgu'r plant. Nos Sul pregethwyd gan y Parch. R.M. Jones, Y Felinheli. Nos Lun pregethwyd gan y Parch. M.J. Parry, Ficer Dewi Sant, Bangor. Yn ystod gwasanaeth y plant cyflwynwyd Beiblau i Kevin Wyn Owen a Ruth Jones am gadw'r Ysgol Sul am dair blynedd heb golli unwaith, a chyflwynwyd llyfr Gwasanaeth y Cymun Bendigaid i Nigel Orritt am gadw'r Ysgol Sul am flwyddyn heb golli unwaith a llyfr Gwasanaeth Bore a

Hwyr i Cynthia Orritt am gadw blwyddyn heb golli ond unwaith. Rhanwyd ffrwythau i gleifion y fro.

CYDYMDEIMLAD

Cydymdeimlwn â Mrs. Owen, Isfryn ar golli ei brawd yng nghyfraith.

Y RHOSYN OLAF

Dywed im pam 'rwyf yn wlo
Dy betalau yn y gwynt;
Ai y gwenyn fu'n dy garu
A'th adawsant ar eu hynt?

Do! bu rhosyn unig arall,
Yn yr ardd yn gwyrô'i ben;
A'r cyfeillion fu'n ei garu
Yn ei adael ar y pren.

E.T. Nani

"PARHAED BRAWDGARWCH" ("Yr Atomfa Newydd")


Gresyn na wêl pwerau mawr y byd
Ganlyniad eu harbrofion coeglyd ffôl;
Ni wyddont hwy i sicrwydd am ba hyd
Y gellir dal heb allu troi yn ôl.
Nid aberth sydd tu ôl i'r ddyfais hell
Ond ysbryd cefnigennus brawd a

frawc
All ryw ddydd droi'n drychineb mawr
rhyw gel
Na ellir arbed bywyd glwth na thlawd,
Gwastraffu miloedd ar berffeithic
arfa!

Ac egin brau yn dioddef eisiau bwyd.
Rocedi'n gwibio fry i'r uchelderau
A phlant y gwledydd fel pe baent
mewn rhywd -
O Grêwr Da, paham yr oedi cyd
A fynni inni fyw mewn darn o fyd?

Harri Williams (Berth,
Gerlan, Bethesda.

Croesair Rhif 8



ENW _____

CYFEIRIAD _____

CROESAIR RHIF 8

AR DRAWS

1. 'Farwel Fy Annwyl Gariad
Nid wyf yn (4.3)
3. Ticed (5)
6. Ci hela (5)
8. Grŵp pop lliwgar! (5.4)
10. Ymofyn (3)
12. Nod (2)
13. Pryd bwyd (2)
16. Ar ôl hynny (3)
17. Rhan o'r hen Gymru! (3.1.5)
19. Enillion (5)
20. Diwifr (5)
21. Cloc (7)

I LAWR

1. Dyma'r ateb ar ei ben! (2.3)
2. Rhoi ar un ochr (7)
3. Gorthrwm (5)
4. Creu cerddoriaeth (9)
5. Gŵyl y Geni (7)
7. Sgôr rygbi (4)
9. Cynhaliaeth (4.1.4)
11. Yn golygu dim (7)
14. Gŵr o un o wledydd y
Dwyrain (7)
15. Dychryn (4)
17. Seinio (5)
18.Bartley (5)

ATEBION RHIF 7

Camgymeriad Croesair 7

7. Ar Draws: Dechrau tyfu
8. Ar Draws: Drain

AR DRAWS: 1. Pegwn; 5. Llafur
7. Egino; 8. Mieri; 9. Enllib; 10
Difyr; 11. Lon; 12. O.N.; 13
Oblegid; 17. Dydd; 18. Inc; 20
Undodwr; 24. Co; 25. Aer; 26
Dewis; 27. Ysgaw; 28. Ifori; 29
Ymuna; 30. Padell; 31. Diddig.

I LAWR: 1. Pamffled; 2
Gweinyddu; 3. Neidio; 4. Diofal
5. Lloerig; 6. Robin; 14. Bro; 15
Erw; 16. Dinasoedd; 19. Carfiog
21. Didwyll; 22. Dawnus; 23
Rwsiad; 24. Cwmp.

Cyfrir y llythrennau canlynol fel
un llythren:

CH; DD; FF; NG; LL; PH; RH
TH

Gwobr o £1 i'r ateb cywir cyntaf
a dynnir ar ôl i'r holl gynigior
ddod i law.

Anfoner y cynigion i:

Myrddin Owen
32, Stryd Fawr
Llanberis

Enillydd croesair Rhif 7:

Mrs. Vera Parry
"Bro Dawel"
Deiniolen.

Llannerch Y Llenor

gan SELWYN GRIFFITH



Croeso i'r llannerch. Maddeuwch i mi am agor hefo cerdd bersonol. Daeth imi'n sydyn y dydd o'r blaen. Dyna sut y teimlwn mae'n debyg, ac mae'n siwr i rai ohonoch chithau gael yr un profiadau droeon.

Daw'r teimlad i'm weithiau ar fy
nhaith drwy'r byd
Fod y golau coch yn f'erbryn o hyd.

Ar groesffordd sbageti 'rwy'n troi ac
yn troi,
Heb obaith o gwbl i'm henaid gael
ffoi.

Ffoi o wallgofrwydd cysgodion y gwyll
A phawb yn fy mhledu â geiriau hyll,

Byw ar fy nerfau yn oerni fy chwys
Dan gawod cyfarchion arwyddion dau
fys;

Troi a thindroi hyd berfeddion o
ffyrdd
A chwilio yn ofer am y golau gwyrdd."

Methu'n glir â chael testun iddi.
Fedrwech chi fy helpu!

Chwi gofiwch imi awgrymu ddechrau'r Haf y dylem ystyried sefydlu Eisteddfod Eco'r Wyddfa ac 'roedd amryw ohonoch yn frwdfrydig dros y syniad ar y pryd. Gobeithio nad yw'r brwdfrydedd wedi toddi yng ngwres yr Ha' 'ma. Beth am ddod i gysylltiad â'r Golygydd fel y medrwn symud ymlaen. Mae'n ddyletswydd arnom ddiogelu diwylliant ein plant a'n hieuenctid.

DINORWIG LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau calonnog i Mr. a Mrs. R.H. Thomas, Creigle ar ddathlu ohonynt eu priodas ruddem Medi 30ain.

O'R YSBYTY

Da gennym weld fod Mr. Alun Phillips, 6 Mae Eilian a Mrs. Betty Peris Roberts, 11 Maes Eilian wedi dod adref o Ysbyty Môn ac Arfon wedi triniaeth feddygol. Gwellhad parhaol fo iddynt.

GWAELEDD

Drwg gennym ddeall fod Mr. Tom Parry, Foel Gron yn Ysbyty Dewi Sant Bangor a Mrs. A. Phillips 6 Maes Eilian yn Ysbyty Dinbych a Mrs. Jennie Owen, Ty'n Fawnog yn Ysbyty Druid, Llangefni. Adferiad buan fo iddynt oll.

DIOLCH

Dymuna Mrs. Betty Peris Roberts 11, Maes Eilian ddiolch yn fawr i feddygon a gweinyddesau Ysbyty Môn ac Arfon am eu gofal a'u sylw tra bu yno, hefyd i'r teulu y cymdogion a ffrindiau am y rhoddion a'r cardiau dderbyniwyd

PENODIAD YNAD HEDDWCH

Llongyfarchwn fel ardalwyr ym mhenodiad Mr. Robert Williams, 4 Tai Caradog, Deiniolen i weinyddu fel Ynad Heddwch i'r cylch. Roedd mawr angen am un i'r cylch gan ei bod mor anhwylyd gyda'r hen drefniant.

Mae'r fased gerddi yn wag. Carwn apelio ar i ddisgyblion Ysgol Brynrefail a phlant Ysgolion Cynradd y fro anfon eu gwaith creadigol i'r "llannerch" hefyd. Cofiwch mae croeso arbennig i chi yma bob amser.

YN COFIO'N IAWN

Ydw, 'rwy'n cofio'n iawn i mi addo cystadleuaeth llinell goll i chi — yn enwedig ar ôl llwyddiant ysgubol y gystadleuaeth gynta'. 238 o linellau os cofiaf yn iawn — os gwn i a dorwn y record y tro hwn.

Dyma'r pennill:

"Rwyf am brynu modur mini,"
Meddai Siôn un dydd wrth Siani
"Nefoedd fawr," medd Siân mewn
dychryn

Cewch eu hanfon yma drwy'r post swyddogol neu gyda phostmyn answyddogol. Y cyfeiriad yw Crud-yr-Awen, Bethel, a'r dyddiad cau fydd dydd Mercher Tachwedd 17.

Hwyl fawr i chi,
Selwyn

LLANRUG

DIOLCHGARWCH

Cynhaliwyd Gŵyl Ddiolchgarwch am y Cynhaeaf Eglwys Sant Mihangel ar ddydd Sul a dydd Llun y10ed a'r 11ed o fis Hydref. Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid fore Sul gan y Rheithor ac arweinwyd gwasanaeth y plant ganddo hefyd. Cymerwyd rhan yng ngwasanaeth y plant gan holl blant yr Ysgol Sul. Y pregethwr gwadd oedd y Parch. G.K. Williams, Ficer Borth, Dyfed. Nos Lun pregethwyd gan y Parch. D.N. Jones, Rhosybol, Môn. Rhodod rhoddion y plant i Blas Pengwaith, Llanberis.

CLWB BLODAU'R GRUG

Ar y 6ed o Hydref rhoddodd Mrs. Jones a staff cegin Ysgol Brynrefail de diolchgarwch i aelodau'r clwb a gwahoddwyd clwb Deian a Loli Bethesda i fod yn bresennol hefyd. Mae'r clwb i gyd yn diolch i'r staff cegin am y wledd ardderchog. Dydd lau 14 Hydref cafwyd sgwrs ddifyr iawn gan Mr. Orwig Roberts, Elidir View ar Batagonia. Da gennym ddeall fod yr aelodau sydd wedi bod yn wael yn gwella yn foddhaol ac yn eu plith ein hysgrifennydd Mr. W. Ellis Griffith sydd wedi dychwelyd adref o'r ysbyty ar ôl triniaeth fawr.

CROESO ADREF

I Mr. John Williams, Glanffynnon o'r ysbyty.

LLANRUG

Y BAND

Cynhaliwyd Noson Goffi yn ystafell y band nos lau Medi 30 Enillwyr y rafflau oedd (Hamper) Mrs E. Rowlands, Llys Forgan, (Basged Wnio) Miss H. Evans, Parc y Rhos. (Treasure Hunt) Mrs. Jones, 6 Rhos Rhug. Diolchwyd i bawb a wnaeth y noson yn llwyddiannus gan Cadeirydd Pwyllgor y Merched sef Mrs. Heulwen Williams; hefyd am roddion gan bobl tu allan i'r Band. Mewn ymarfer band ar nos Fercher y 29 rhoddwyd rhodd o Vanity Case i Miss Helena Parry Bryn Heli ar ran y Band a'r Pwyllgorau ar ei hymadawiad i'r coleg gan Mr. Charles W. Jones.

LLONGYFARCH

Dymunwn longyfarch Mr. Glyn Owen Llys Eryri, ar roddi 27 mlynedd o wasanaeth fel blaenor ac Athro yn yr Ysgol Sul ym Mhontrythallt. Dechreuodd ar ei wasanaeth fel blaenor ar ddydd Sul Ddiolchgarwch 1949. Bydded iddo gael llawer o flynyddoedd eto yn y swydd sydd wrth fodd ei galon.

Dirwestwr hawdd ei drystio — ydyw ef

A nod ei Dduw arno:

A gwedd ddwys mawrygodd o
Y swydd roes lesu iddo.

Glan Rhyddallt

MERCHED Y WAWR

Cynhaliwyd cyfarfod o Ferched y Wawr yn y Sefydliad Coffa nos Fawrth 12fed o Hydref gyda Mrs. N. Roberts (y llywydd) yn y gadair. Y siaradwr gwadd oedd y Dr. Alun Morris o Ysbyty Dewi Sant, Bangor a roddodd sgwrs ar Anhwylderau ac Afiechydon Plant Diolchwyd iddo gan Mrs. J.C. Williams. Gwnaeth yr hwyrnos goffi yn yr ysgol Gynradd elw o £46 i'w gyflwyno i'r Sefydliad Coffa. Gwnaed y te gan Mrs. Olwen Hughes, Miss Iona Jones Mrs. Ann Evans a Mrs. Laura Newaes a diolchwyd iddynt gan Mrs. G.M. Jones.

PLAID CYMRU

Dangoswyd ffilmiau Cymraeg yn Ysgol Glanmoelyn ar yr 22ain o Hydref o dan nawdd y gangen leol o Blaid Cymru.

O. STANLEY ROBERTS

Croeso gartref i Stanley; mae yma ar ei wyliau tan mis Chwefror. Ar hyn o bryd mae'n gweithio yn y Dwyrain Pell yn Brunei; cyn hynny bu'n gweithio yn Rhodesia Nigeria a Malaya.

GWELLHAD BUAN

Da oedd clywed bod Selwyn Williams, Cartef, wedi dychwelyd o'r ysbyty ac wedi gwella.

CYMDEITHAS CHWIORYDD

Agorwyd tymor cymdeithas y chwiorydd Capel Mawr gyda Noson Goffi lwyddiannus iawn. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan y llywydd Mrs. W.O. Roberts — rhoddodd groeso cynnes i bawb a chydymdeimlo a'r rhai oedd yn wael mewn ysbytai ac yn eu cartrefi. Cafwyd adroddiad y trysorydd gan Mrs. M. Jones, Ogwen. Rhoddwyd y coffi gan

Mrs. Beryl Thomas a Mrs. Nansi Roberts, Llys Eiddon. Bydd y cyfarfod nesaf Tachwedd 4 am 7 o'r gloch.

DIOLCHGARWCH

Cafwyd cyfarfod hynod o fendithiol yn y Capel Mawr ddydd Llun Diolchgarwch. Yn y bore am 10 cymerwyd rhan gan y plant — rhoddwyd anerchiad iddynt gan y Gweinidog y Parch. W.O. Roberts. Yr organydd oedd Mrs. Mair Jones Ogwen. Yn y prynhawn cafwyd cyfarfod gweddi o dan arweiniad y chwiorydd. Cymerwyd rhan gan Mrs. Nancy Roberts, Mrs. T. Evans, Miss Beryl Wyn Jones, Mrs. Anwen Roberts, Mrs. Joan Griffith, Mrs. Catherine Owen a Mrs. Meryl Williams. Yn yr hwyr cafwyd cyfarfod gweddi o dan arweiniad brodyr yr eglwys. Cymerwyd rhan gan Mri. Iolo Llywelyn, Alfred Parry a Thomas Evans, a llywyddwyd gan Mr. Gwilym Jones, Gorwel.

CYMDEITHAS LENYDDOL

Agorwyd tymor newydd y Gymdeithas nos lau Hydref 14 gyda chyngerdd gan 'Alawon Menai', yr arweinydd oedd Mr. Arwel Jones, Gwên-y-Wawr, gyda Mr. J. Wyn Owen yn llywyddu. Cafwyd cychwyn da i'r tymor a daeth cynulliad da ynghyd. Diolchwyd i bawb gan Mrs. Nancy Roberts, Llys Eiddon a Mr. Ifan Roberts, Tŷ Capel.

I'R COLEG

Dymuniadau gorau i Arwel Thomas sy'n dechrau ar ei yrfa golegol yn y Coleg Normal, Bangor. Arwel oedd Prif Ddisgybl Ysgol Brynrefail llynedd.

FFARWELIO

Llongyfarchion i John Newnes ar ei ddychafiad i swydd gyda Banc y Midland yng Nghroesoswallt. Bu John a'i wraig, Laura, yn ffrindiau da a gweithgar i Eco'r Wyddfa. Bu'r ddau yn helpu'n gyson gyda'r papur. Dymuniadau gorau iddynt hwy a'u dau blentyn, Glyn a Siân, yn eu cartref newydd.



Maes y Merched

LABELAU I ARBED Y PRYNWR

Wrth ddewis offer i'r gegin neu i weddill y tŷ mae'n werth cofio fod arbrofion manwl wedi eu gwneud ar y rhan fwyaf ohonynt i sicrhau safon uchel mewn diogelwch effeithiol-rwydd a gwerth am arian. Mae'r dewis wedyn yn hollol rydd i'r cwsmer ond cyn penderfynu ar fath arbennig dylid edrych am y labelau hyn - yn enwedig wrth brynu carped, tân trydan neu beiriant golchi. Dyma eglurhad ar rai ohonynt:



Gwelir y 'kitemark' ar offer a ddaeth yn llwyddiannus drwy arbrofion llym y Sefydliad Safoni Prydeinig (BSI). Nid yw bob amser yn sicrhau'r gwerth gorau am arian ond mae'n golygu gwarant o oes rhesymol ac o ddiogelwch. Un o'r safonau diweddaraf yw un ar sychwr sbinio - chwiliwch amdano os oes plant ifanc gennych oherwydd ni ellir agor caead y sychwr nes i'r drwm orffen troi.



Bwrdd Prydeinig Cymeradwyo Offer Trydan (BEAB) Gwneir arbrofion ar decelli, poptai, blancedi trydan a rhewgellau i ofalu eu bod yn ddiogel ac yn enwedig fod dim perygl o gyffwrdd â weiren fyw.



Dyma label y Ganolfan Gynllunio, a gefnogir gan y llywodraeth i hyrwyddo gwelliannau mewn siâp a ffurf pethau fel celfi, cwleri, offer garddio ac yn y blaen. Cynhelir arddangosfeydd yn Lerpwl a Llundain o enghreifftiau o offer wedi eu cynllunio'n dda.




Os ydych yn bwriadu prynu tŷ neu fflat gweddol newydd fe ddylai gario gwarant deng mlynedd Cyngor Cenedlaethol Adeiladwyr Tai (NHBC). Mae'n golygu fod yn rhaid i'r adeiladwyr drwsio unrhyw wendid yn ystod y ddwy flynedd gyntaf o oes y tŷ, ac os oes rhywbeth mawr o'i le rhaid iddynt oruchwylio am ddeg mlynedd. Gall fod yn anodd gwerthu tŷ heb y tystysgrif yma.



Canolfan Carpedi Prydain. Mae pump gradd o garped i'w gael dan y label yma, e.e. ysgafn i'r cartref a math trymach i siopau neu westai.

Dyma bedwar label a allwch ddisgwyl eu gweld ar ddillad.




Haeam ac un dotyn - claeam.
Haeam a dau ddotyn - cynnes.
Haeam a thri dotyn - poeth.



Peidiwch â golchi'r dilledyn hwn.



Gallwch lanhau hwn yn broffesiynol.



I'w olchi ar rif 6 ar beiriant golchi awtomatig. Tymheredd addas i wlân a polyester wedi eu cymysgu.

Felly cadwch eich llygaid yn agored am y labelau hyn. Chi, y prynwyr - fwy na neb - all godi safonau offer tŷ drwy wrthod derbyn nwyddau islaw safon dderbyniol.

Os oes gennych broblem gyda offer tŷ ac yr hoffech gael cyfeiriad unrhyw un o'r cwmnïoedd yna anfonwch i mewn neu ffonio:

Rhiannon James, Bangor
53335 neu Caernarfon 3137.

Dyddiadur y Mis

Tachwedd 1. Llun: 1. Clwb Methodig Eryri yn cyfarfod yn y Ganolfan am 2 o'r gloch. 2. Gyrfa Chwist dan nawdd y St. Johns yn y Ganolfan Llanberis am 7.30. 3. Dosbarth nos Arlunio yn Ysgol Dolbadarn, Llanberis am 7. 4. Dosbarth nos "Hanes Cymru" yn yr Ysgol Gynradd Llanrug am 7.00. 5. Undeb y Mamau, Penisarwaun yn cyfarfod.

Tachwedd 2. Mawrth: 1. Dosbarth nos "Hanes Cymru" yn Ysgol Gwaun Gynri, Deiniolen am 7.00. 2. Undeb y Mamau Llanberis yn cyfarfod.

Tachwedd 3. Mercher: 1. Clwb y Mamau Llanberis yn cyfarfod yn y Ganolfan am 7.30, pryd y bydd Mr. Derek Rees yn dangos sut i drin gwallt. 2. Clwb Gwyddbwyll Llanberis (oedolion) yn cyfarfod yng Ngwesty'r Fictoria. Cwmni Drama Llanberis yn cyfarfod yn Festri Preswylfa am 7.30. 3. Noson Goffi yn y Neuadd, Bethel dan nawdd Clwb y Mamau.

Tachwedd 4. Iau: 1. Clwb Gwyddbwyll Llanberis (dan 18 oed) yn y Ganolfan. 2. Clwb Ieuencid Penisarwaun yn cyfarfod. 3. Dosbarth nos W.E.A. "Etifeddiaeth Diwylliannol Cymru" yn Hostel Pen-y-pass am 7.45. 4. Clwb Ieuencid Llanrug yn cyfarfod yn Ysgol Glanmoelyn. 5. Cymdeithas y Chwirydd, Capeli Mawr, Llanrug yn cyfarfod am 7.00. 6. Cymdeithas y Chwirydd Deiniolen yn cyfarfod. 7. Noson o Ffilmiau a Chartwniau wedi ei threfnu gan yr Aelwyd yng Nghapel Coch am 5.30 a 7.30. 8. Cymdeithas Lenyddol Brynrefail. Darlith gan yr Athro Gwilym H. Jones ar "Wlad Palesteina".

Tachwedd 5. Gwener: 1. Aelwyd yr Urdd Llanberis yn cyfarfod yn Festri Capel Coch am 7.30. 2. Clwb Ieuencid Llanberis yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys. 3. Adran Urdd Llanberis (1 - 14 oed) yn Festri Capel Coch am 6.00.

Tachwedd 8. Llun: 1. Clwb Methodig Eryri yn cyfarfod yn y Ganolfan Llanberis am 2 o'r gloch. 2. Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Peldroed yn y Ganolfan, Llanberis am 7.30. 3. Dosbarth nos Arlunio yn Ysgol Dolbadarn Llanberis am 7.00. 4. Dosbarth nos "Hanes Cymru" yn yr Ysgol Gynradd Llanrug am 7.00. 5. Cymdeithas Lenyddol Capeli M.C. Llanberis. Darlith gan Mr. I.B. Griffith yng Nghapel Gorffwysfa am 7.15.

Tachwedd 9. Mawrth: 1. Dosbarth nos "Hanes Cymru" yn Ysgol Gwaun Gynri Deiniolen am 7.00. 2. Undeb y Mamau Cwm-y-Glo yn cyfarfod yn yr ysgol. 3. Clwb yr Henoed Deiniolen yn cyfarfod.

Tachwedd 10. Mercher: 1. Merched y Wawr, Cangen Bethel yn cyfarfod yn yr ysgol am 7.30 yng nghwmni Parch Gareth Maelor, Bontnewydd. 2. Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur Llanberis yn y Ganolfan am 7.30. 3. Clwb Gwyddbwyll Llanberis (oedolion) yn cyfarfod yng Ngwesty'r Fictoria. 4. Cwmni Drama Llanberis yn cyfarfod yn Festri Preswylfa am 7.30. 5. Sgwrs a ffilm "Cofio Ann Griffiths" yng Nghapel Tabernacl, Deiniolen am 7.00.

Tachwedd 11. Iau: 1. Disgo dan nawdd Cangen Plaid Cymru Llanberis yn y Ganolfan am 7.30. 2. Eisteddfod Gadeiriol Bethel yn y Neuadd am 6 o'r gloch. 3. Clwb Gwyddbwyll Llanberis (dan 18 oed) yn cyfarfod yn y Ganolfan. 4. Clwb Ieuencid Penisarwaun yn cyfarfod. 5. Dosbarth nos W.E.A. yn yr Hostel, Pen-y-Pass am 7.45. 6. Clwb Ieuencid Llanrug yn cyfarfod yn Ysgol Glanmoelyn.

Tachwedd 12. Gwener: 1. Eisteddfod Gadeiriol Bethel yn y Neuadd am 6.30. 2. Aelwyd yr Urdd Llanberis yn cyfarfod yn Festri Capel Coch am 7.30. 3. Clwb yr Henoed Llanberis yn cyfarfod yn y Ganolfan. 4. Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys, Penisarwaun am 7.30. 5. Clwb Ieuencid Llanberis yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys. 6. Ffair Gaaf dan nawdd Cangen Plaid Cymru Deiniolen yn Ysgol Gwaun Gynri am 7. 7. Adran Urdd Llanberis (11 - 14 oed) yn Festri Capel Coch am 6.00.

Tachwedd 13. Sadwrn: 1. Ffair Gaaf yn Feed My Lambs, Caernarfon am 1.30. Dan nawdd Pwyllgor Merched Arfon o Blaid Cymru.

Tachwedd 14. Sul: Lleng Brydeinig. Cynhelir gwasanaeth Cad-oediad yn Eglwys Llandinorwig. 2. Cynhelir gwasanaeth cad-oediad am 10.30 ger yr Ysgol Gynradd, Bethel.

Tachwedd 15. Llun: 1. Clwb Methodig Eryri yn cyfarfod yn y Ganolfan Llanberis am 2 o'r gloch. 2. Gyrfa Chwist dan nawdd y St. Johns yn y Ganolfan Llanberis am 7.30. 3. Dosbarth nos Arlunio yn Ysgol Dolbadarn Llanberis am 7.00. 4. Dosbarth nos "Hanes Cymru" yn yr Ysgol Gynradd Llanrug am 7.00. 5. Merched y Wawr Deiniolen yn cyfarfod yng nghwmni Miss Eurwen Williams.

Tachwedd 17. Mercher: Clwb y Mamau Llanberis yn cyfarfod yn y Ganolfan am 7.30 pryd y ceir arddangosfa coginio gan y Bwrdd Nwy. 2. Clwb Gwyddbwyll Llanberis (oedolion) yn cyfarfod yng Ngwesty'r Fictoria. 3. Cwmni Drama Llanberis yn cyfarfod yn Festri Preswylfa am 7.30. 4. Merched y Wawr Cwm-y-Glo yn cyfarfod yn yr Ysgol, pryd y ceir ffilmiau gan Mr. a Mrs. Glynn Williams.

Tachwedd 18. Iau: 1. Clwb Gwyddbwyll Llanberis (dan 18 oed) yn cyfarfod yn y Ganolfan. 2. Clwb Ieuencid Penisarwaun yn cyfarfod. 3. Dosbarth W.E.A. yn yr Hostel, Pen-y-Pass am 7.45. 4. Clwb Ieuencid Llanrug yn cyfarfod yn Ysgol Glanmoelyn.

Tachwedd 19. Gwener: 1. Aelwyd yr Urdd Llanberis yn cyfarfod yn Festri Capel Coch am 7.30. 2. Clwb Ieuencid Llanberis yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys. 3. Arwerthiant yn Neuadd yr Eglwys Penisarwaun am 6.30. 4. Adran Urdd (11 - 14 oed) yn Festri Capel Coch Llanberis am 6.00.

Tachwedd 22. Llun: 1. Clwb Methodig Eryri yn cyfarfod yn y Ganolfan Llanberis am 2 o'r gloch. 2. Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Peldroed yn y Ganolfan Llanberis am 7.30. 3. Dosbarth nos Arlunio yn Ysgol Dolbadarn, Llanberis am 7.00. 4. Dosbarth nos "Hanes Cymru" yn yr ysgol Gynradd Llanrug am 7.00. 5. Cymdeithas Lenyddol Capeli M.C. Llanberis. Cwis dan ofal Mrs. Bayliss yng Nghapel Coch am 7.15.

Tachwedd 24. Mercher: 1. Cwmni Drama Llanberis yn cyfarfod yn Festri Preswylfa am 7.30. 2. Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur Llanberis yn y Ganolfan am 7.30. 3. Clwb Gwyddbwyll Llanberis (oedolion) yn cyfarfod yng Ngwesty'r Fictoria.

Tachwedd 25. Iau: 1. Sefydliad y Merched, Cangen Llanberis yn cyfarfod yn y Ganolfan am 7.00. 2. Dosbarth W.E.A. yn yr Hostel, Pen-y-Pass am 7.45. 3. Clwb Ieuencid Llanrug yn cyfarfod yn Ysgol Glanmoelyn. 4. Clwb Ieuencid Penisarwaun yn cyfarfod. 5. Clwb Gwyddbwyll Llanberis (dan 18 oed) yn y Ganolfan.

Tachwedd 26. Gwener: 1. Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys Penisarwaun am 7.30. 2. Clwb yr Henoed Llanberis yn cyfarfod yn y Ganolfan. 3. Cyfarfod Blynnyddol Cangen Plaid Cymru Llanrug. 4. Ffair Flynnyddol Clwb Blodau'r Grug, Llanrug. 5. Aelwyd yr Urdd Llanberis yn cyfarfod yn Festri Capel Coch am 7.30. 6. Clwb Ieuencid Llanberis yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys. 7. Noson Goffi ac Arwerthiant yn yr Ysgol Gynradd Penisarwaun. 8. Adran Urdd Llanberis (11 - 14 oed) yn Festri Capel Coch am 6.00.

Tachwedd 29. Llun: 1. Dosbarth nos "Hanes Cymru" yn yr Ysgol Gynradd Llanrug am 7.00. 2. Dosbarth nos Arlunio yn Ysgol Dolbadarn Llanberis am 7.00. 3. Clwb Methodig Eryri yn cyfarfod yn y Ganolfan Llanberis am 2 o'r gloch. 4. Gyrfa Chwist dan nawdd y St. Johns yn y Ganolfan Llanberis am 7.30.

AR WERTH

Beic "Tomahawk" fel newydd, i blentyn 5 - 9 oed. £25.

Gwyn Roberts, Gregynog, Llanrug

BETHEL

DIOLCHIADAU

Dymuna Mrs. Elizabeth Ellis Evans, Blaen Parc, ddiolch i'w pherthnasau a'i ffrindiau am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd yn ystod ei gwaeledd. Diolch arbennig i staff Ward Gwynedd Ysbyty Dewi Sant Bangor.

YN GWELLA

Mae'n dda gennym ddeall fod Miss Annie Williams, 'Refail yn gwella yn yr ysbyty. Mae pawb yn edrych ymlaen at eich gweld yn ôl yn y cyffiniau eto. Mae nifer o bobl Bethel un ai yn yr ysbyty neu newydd ddod adref. Ein dymuniad yw ar i bawb sy'n wael gael gwellhad buan.

Y NEUADD

Dewiswyd y canlynol fel swyddogion y Pwyllgor Neuadd newydd. Cadeirydd Mr. Islwyn Jones, Tŷ'r Ysgol, Trysorydd: Mr. Goronwy Jones, Glan Gros; Ysgrifennydd: Mr. Geraint Elis, Sycharth. Penderfynodd y pwyllgor gael pensaer i weld y Neuadd gyda golwg ar gael cynllun i wella'r adeilad.

EISTEDDFOD

Nos Iau a nos Wener Tachwedd 11 a 12 fe gynhelir yr Eisteddfod yn y Neuadd. Bydd yr Eisteddfod yn cychwyn am 6 nos Iau a 6.30 nos Wener. Yn dilyn yr elw o £150-20 a wnaed o'r Daith Gerdded yn ddiweddar mae gwobrau da ym mhob cystadleuaeth eleni. Y beirniaid fydd Llên & Adrodd: Mr. Glyn Owen, Pwllheli; Cerdd: Mr. Rowland Wyn Jones, Y Coleg Normal; Arlunio: Mr. S. Bennett, Bethel. Gobeithir am Eisteddfod lwyddiannus eto eleni.

DIOLCHGARWCH

Dydd Sul Medi 17 cynhaliwyd cyfarfodydd Diolchgarwch yng nghapeli Saron a Bethel. Yng nghapel Bethel bedyddiwyd Angharad Wynn, merch Mr. a Mrs. Melfyn Davies, Bryn Hyfryd; Aaron Wyn, mab Mr. a Mrs. Gareth Jones, Cadnant a Dylan, Nicholas a Michael plant Mr. a Mrs. David Ham, Tŷ'r Heddlu. Yn oedfa'r hwyr derbyniwyd yn gyflawn aelodau Emyr Roberts, Penrhos Villa; Raymond a Colin Jones, Min Awel, David ac Eirian Hughes, Waen Deg; Euron Griffith Crud-yr-Awen; Harold Owen, 18 Cremlyn; Adrian Bennett, 11 Bro Rhos; Trefor Foulkes, Tyddyn Gwndwn; Hefin Jones, 1 Cremlyn; Delyth Jones, Stad Eryri; Sulwen Owen, 4 Corra Linn; Vinna Jones Cadnant; Sandra Jones, 4 Bro Rhos a Julia Mimery, 3 Penrhos. Cafwyd casgliad o £149. Mae'r Parch. Eryl Lloyd Davies a'r swyddogion yn diolch o galon i bawb am eu cyfraniad. Dydd Llun Hydref 18 cafwyd Gŵyl Ddiolchgarwch yn y Cysegr, gyda chyfarfod gweddi y bore a'r hwyr. Yn y prynhawn cymerwyd rhan gan blant yr eglwys a derbyniwyd rhoddion a ffrwythau ganddynt. Dosbarthwyd y rhoddion yng Nghartref yr Henoed, Bethesda.

MERCHED Y WAWR

Nos Fercher Tachwedd 10 am 7.30 bydd y Parch. Gareth Maelor Y Bontnewydd yn rhoi sgwrs ar

"Wisgoedd yr Oesoedd" i'r gangen leol.

PLAID CYMRU

Nos Fercher Tachwedd 17 fe gynhelir Disgo yn y Neuadd dan nawdd y gangen leol o Blaid Cymru. Croeso i bawb.

YR YSGOL

Penderfynnodd Pwyllgor Addysg Gwynedd yn eu cyfarfod ar Hydref 21 wario £60,000 ar yr ysgol leol. Bydd y gwaith yn cael ei ddechrau yn ystod y flwyddyn ariannol 77/78 a gobeithir ehangu'r ysgol i gwrdd â'r twf sydd wedi bod ym mhoblogaeth Bethel.

CODI BLAENORIAID

Mae Miss Megan Hughes, Llys Orwig a Mrs. Mona Williams, 9 Bro Rhos wedi eu hardeinio yn flaenoriaid yng nghapel Saron. Mae'r ddwy eisoes wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth i'r achos a gofynnir am bob bendith ar eu llafur yn eu swydd newydd.

LLONGYFARCHIADAU

I Moelwen ac Edryd Gwyndaf, Gardd Ffynnon ar enedigaeth Siwan eu cyntaf anedig. I Emyr a Mair Price, Tan-y-Ffordd ar enedigaeth lolo, brawd i Angharad ac Irfon.



Llongyfarchiadau i Jessica a Helena Williams, Cefn y Gwynt, Cefn Rhos, am eu llwyddiannau diweddar yn y Festival Cerdd, Southport. Enillodd Jessica y Cwpan Arian am adrodd, a Helena y Cwpan Arian am adrodd a cwpan am ganu.

CARREG GOFFA

Am 10.30 bore Sul y Cadoediad, Tachwedd 14 fe gynhelir gwasanaeth ger yr ysgol i gysegru'r garreg goffa newydd. Yn ystod y gwasanaeth fe osodir torch o flodau pabi coch ar y gofeb ar ran y pentref. Mae croeso i unrhyw fudiad neu unigolyn osod blodau ar y gofeb hefyd ar ôl y brif seremoni. Erbyn hyn mae nifer fawr o bobl wedi cyfrannu at y gofeb ond os oes rhywun heb gael cyfle fe ellir anfon unrhyw rodd at y trysorydd Mr. Deiniol Williams, Cilgwyn, Bethel.

Y.M.C.A.

Yn ystod yr wythnos bu casglwyr o amgylch yn casglu arian at y Y.M.C.A. ym Methel. Mae'r ymgyrch yn rhan o weithgareddau yr wythnos Y.M.C.A.



Gwelwyd y llun uchod yn rhifyn Rhagfyr 1899 o'r *Cymru'r Plant* — dan olygiaeth y diweddar Owen Edwards.

Daw y llun ag atgofion diddorol i ardawyr hynaf Tan-y-Coed, gan i Mrs. Rose Thomas symud o Gwm-y-Glo i fyw i "Hen Groeslon", Bryngwyn, hefyd un o'r plant yn y darlun oedd y diweddar Mr. Evan Evans Preswylfa, Tai Trefor.

Bu Mrs Thomas yn athrawes yn Ysgol Sul Tan-y-Coed, hefyd dywedir iddi gychwyn Ysgol Sul i blant tlawd yr ardal yn y tŷ, a alwyd hyd yn ddiweddar yn Orient Cottage.

HAELIONUS

Cofiw'n ni, ddisgyblion Ysgol Bryn Eryr fyddai'n mynd heibio "Hen Groeslon" wrth fynd a dod i'r Ysgol am haelioni arbennig Rosie Thomas, fel y gelwir hi i ni'r plant ar ddydd Mawrth Crempog. Ar y dydd arbennig hwn byddai yn ein disgwyl gyda llond piser o grempogau — yn sicr un o gymeriadau Cymreig cadarn diddorol y gorffennol oedd hi.

Daeth gwybodaeth i law Draenog o Sidney Stringer School and Community College, Coventry

"Come and learn Cymraeg"

oedd ar eu rhaglen gan obeithio cael rhyw 20 i ymaelodi. Ond brensiach y bratia, ymaelododd 60. Yn Coventry o bob man. Fedrwn ni ddim cael 20 i ymaelodi yn y fro hon! Beth sydd o'i le, deudwch?

CWESTIWN
Be' di'r ffordd hawsa' o symud llwyth o Lanber i Landudno, o Deiniolen i Dundee ac o Fethel i Fanceinion?

H.F. OWEN
ATEB
YMGYMERWR CLUDIANT — HAULAGE CONTRACTOR
BRON MEILLION

Bethel
Ffôn : Port Dinorwig 487
Fe gariwn rywbeth i rywle (bron!)

GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

COFADEILWAITH O BOB
MATH MEWN LLECHI A
GWENITHFAEN GAN
GREFFTWYR LLEOL



DEINIOLEN

ADREF O'R YSBYTY

Mae ffrindiau Elfyn Morris, 1, Tanyfoel yn falch o'i weld wedi dychwelyd gartref ar ôl triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Mon ac Arfon. Dymunai Elfyn gydnabod gyda diolch y llu anrhegion a'r dymuniadau da dderbyniodd yn ystod ei waeledd.

UNDEB DIRWEST

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol Undeb Dirwest Gogledd Cymru (Adran Arfon) yng nghapel Disgwylfa ddydd Iau Hydref 14eg 1976.

Neilltuwyd rhan gyntaf eisteddiad y pŵn ar gyfer Cyfarfod y Plant dan arweiniad Mr. W.J. Eames, a chyfranwyd eitemau caboledig gan blant Ysgol Gwaun Gynfi dan hyfforddiant Mrs. E. Eames a Mrs. M.W. Jones. Cynhaliwyd y gynhadledd dan lywyddiaeth Miss Mary Richards Caernarfon yn ail ran yr eisteddiad a thraethwyd anferchiad grymus gan y Parch. S.H. Williams, Cesarea, i gloi'r cyfarfod.

Y Parch. Tudor Davies, Bangor oedd yn llywyddu'r Cyfarfod Cyhoeddus yn yr hwyr, a chyflwynwyd anferchiad trawiadol arall gan y Parch. Henry R. James, Llanrhaeadr Y.M., (Ysgrifennydd newydd Undeb Dirwest Gogledd Cymru). Cymerwyd rhannau defosiynol y cyfarfod hwn gan y Parch. Eryl Lloyd Davies, Deiniolen, a chafwyd datganiadau gan ieuencid eglwys i'r pentref a pharti o wragedd Eglwys Disgwylfa, a chyfeiliwyd iddynt gan Mrs. A. Rees Owen a Mr. H. Emyr Pritchard, Disgwylfa. Yng nghynhadledd y pŵn etholwyd y Parch. Eryl Lloyd Davies yn olynydd i'r diweddar Barch. R. Wynne Richards, Llanfairfechan, cyn-ysgrifennydd yr Adran. Canmolwyd trefniadau manwl y Parch. W.O. Roberts, Llanrug a Mr. John Williams, Disgwylfa er sicrhau llwyddiant y cyfarfodydd ar waethaf y tywydd gwlyb a stormus a gwerthfawrogwyd y lluniaeth oedd wedi ei ddarparu ar gyfer y cynrychiolwyr.

EGLWYS LIBANUS CLWT-Y-BONT

Pŵn Sul, Hydref 10fed bedyddiwyd Malcolm Lloyd Jones, Pentre Helen gan ei Weinidog y Parch. Ifor Williams ac mewn oedfa arbennig y Sul dilynol derbyniwyd Malcolm a Carol Ann Williams, Tai Marian (oedd wedi ei bedyddio fis yn flaenorol) yn gyflawn aelodau o Eglwys Libanus.

LLENG BRYDEINIG

Cynhelir gwasanaeth Cad-Oediad yn Eglwys Llandinorwig pŵn Sul Tachwedd 14eg dan arweiniad y Parch. Geraint Edwards.

Bydd gorymdaith yn cael ei harwain gan y Seindorf Arian ac yn cynnwys aelodau'r Llang Brydeinig, Girl Guides, Brownies ac Ambiwylans St. Ioan yn cychwyn tu allan i'r Llyfrgell am 1.40 p.m., ac yn dychwelyd wedi'r gwasanaeth yn yr Eglwys i osod blodeudyrch ar y Gofeb.

ADRAN FEITHRIN YSGOL GWAUN GYNFI

Gwahoddwyd plant yr Ysgol Feithrin i ddod a ffrwythau gyda hwynt i'r ysgol ddydd Gwener Hydref 15fed fel mynegiant o'u Diolchgarwch am y Cynhaeaf. Yn ddiweddarach yr un dydd ar gais y disgyblion gofynnwyd i Marina Bryn Roberts gyflwyno'r ffrwythau i'r Henoed ym Mhlas Pengwaith, Llanberis a chymerwyd rhan yn y gwaith pleserus hwnnw efo Marina gan Miss Elinor Jones (cyn-brifathrawes) a Mr. W.J. Eames (Prifathro).

GŴYL DDIOCHGARWCH EGLWYSI PLWYF LLANDINORWIG

Dymunol iawn ydoedd cael dau o fechgyn a fagwyd yma i wasanaethu yn ystod Llun Diolchgarwch, sef y Parch. G. Hywyn Jones, Ficerdy, Llandinorwig gynt — yn awr yn Ficer Betws-y-Coed — yn pregethu; a Mr. Arthur Davies Rhiwen gynt — sy'n athro ysgol ym Mangor yn cynorthwyo gyda'r gwasanaethau yn St. Mair. Roeddym yn falch iawn ohonynt a hwythau yn barod a hapus o gael dod i'w hen blwyf eglwysig i wasanaethu.

MERCHED Y WAWR

Fe gafwyd noson hynod o ddi-ddorol ac addysgiadol i lawer ohonom nos Lun Hydref 11eg gyda Mr. H.J. Hughes, darlithydd yng Ngholeg y Normal, Bangor yn dangos lluniau, a dweud am arferion adar a'r glöyn-byw a welir yn y gymdogaeth hon ar wahanol dymhorau o'r flwyddyn. Diolchwyd i Mr. Hughes gan Mrs. Rees-Owen. Gwesteion y paned te ydoedd Mrs. Gwladys Jones, Tŷ Capel Libanus, Mrs. M. Thomas, Berthen Gron, Mrs. S. Jones, Maes Gwylfa a Miss K. Jones Crown. Enillwyd y raffle gan Mrs. G. Lewis, Tai Marian. Cynrychiolir y Gangen yn y Gynhadledd yn Aberystwyth ar y 6ed o Dachwedd gan Mrs. L. Morris, Rhiwen a Mrs. Mair E. Morris, Rhydfadog. Estynodd Miss P. Roberts (y Llywydd) ar ran yr aelodau, llongyfarchion cynnes i briod y Trysorydd — sef Mr. R. Williams, 4 Lle Caradog, ar yr anrhydedd o'i ddewis yn Ystus heddwch, gan fynegi'r llawenydd o gael un o'r ardal i lenwi'r swydd bwysig hon. Bydd yr apwyntiad o fantais a gwerth mawr i'r ardal yn gyffredinol. Dymunwyd pob llwyddiant iddo yn y gwaith.

Edrychwn ymlaen i gael Miss Eurwen Williams, Tŷ'r Ysgol Llandinorwig atom ar nos Lun Tachwedd 15ed i ddweud am ei menter o gychwyn y ffatri, ac i arddangos y dilladau gwau a wneir yno ganddi hi a'r merched a gyflogir. Gwerth mawr arall i'r ardal, yw cael merch ifanc yn cychwyn gwaith yn ei hardal enedigol.

o



CÔR PLANT GWAEN GYNFI, DEINIOLEN — 1932

Arweinydd y côr uchod oedd Griffith Evans, mab y diweddar Mr. a Mrs. Hugh Richard Evans, Pentre Helen, a'r hyfforddwr oedd y diweddar Mr. William Ffoulk Jones, Siop Newydd. Enillodd y côr amlygrwydd mawr yn yr ardal ar sail ei lwyddiant ysgubol mewn Eisteddfodau lleol ym mlynnyddoedd cynnar y tridegau.

(Llun trwy garedigrwydd Mrs. R. Price, 8, Tai Caradog)

CHWEDLAU'R FRO

gan JOHN OWEN HUWS

Mae llawer o chwedlau am gewri yn Eryri, er mai oncy chydig ohonynt sy'n hysbys bellach. Ceir un neu ddwy yr ardal yr *Eco*. Cyfeiriais at yr enwocaf eisoes, sef hanes llad Rhita Gawr gan Arthur ar yr Wyddfa. Mewn ardal sydd mor fynyddig a chreigiog, naturiol oedd esbonio bodolaeth rha meini a charneddi drwy ddweud mai gwaith cewri'r gorffennol oeddynt. Er enghraifft, dywed un traddodiad ma cawr o'r enw Igyn a gododd y pentwr anferth o gerrig a roe ei enw i Garnedd Igyn, copa rhwng y Grib Goch a'r Wyddfa.

CAWRES

Bu cawres yn byw yn ardal Llanberis ar un adeg hefyd. Wrth ochr hon, 'roedd Marged Fwyn Uch Ifan a Chadi'r Cwmglas yn dila. Mae ôl un droed iddi i'w gweld ar ben Llechi Llyfnion, ar ochr ddeheuol Llyn Peris, ac ôl y droed arall ar ben Carreg Noddyn, ar ochr ogleddol y llyn. Arferai ddod i'r fan yma i 'molchi ac i wneud hyn rhoddai un droed o bobtu'r llyn — pellter o hanner milltir a mwy! Yn agos i Ben-y-pas mae pentwr mawr o gerrig gwynion. Dywedir mai'r gawres hon a'u casglodd yn ei barclod yn y Marian, ger y Cwmglas, gyda'r bwriad o'u cario i Sir Ddinbych i'w rhoi ar fedd ei gŵr. Fodd bynnag, pan gythaeddodd Ben-y-pas fe dorodd llinyn ei barclod a ffurfio'r garnedd a elwir yn Farclodiad y Gawres yn lleol.

YSTYR GWRYD

Yn agos i Ben-y-pas saif gwesty Pen y Gwryd ac oddi tano Nant y Gwryd. Enw llawn y lle oedd Nant Gwryd Cai, sef un o farchogion y brenin Arthur. Ystyr 'gwryd' yw'r mesur a geir pan ledodyn ei freichiau a mesur y pellter rhwng blaenau bysedd y ddwy law. Dyma yw'r gair Cymraeg am "fathom" am mai gwryd y mwyafrif o ddynion yw chwe troedfedd. Gellir cael rhyw syniad o faint Cai o ystyried y medrai sefyll yn Nant y Gwryd, gan gyffwrdd y mynydd ar y dde iddo

ag un law a'r mynydd ar y chwith â'r llaw arall.

HANES GORFFWYSFA

Tra'n sôn am enwau llawn, hen enw Pen-y-pas oedd Pen Gorffwysfa neu Gorffwysfa Peris. Dyna enw'r gwesty a safai yno cyn yr hostel ieuencid bresennol. Ceir cyfeiriad at y lle mewn siarter gan Llywelyn Fawr yn 1198. Cafodd y fan ei enw am y dywedir mai yno, ar garnedd o gerrig, y gorffwysai Peris ar ôl llafurio i fyny'r Bwlch o Lanberis. Yn 1693 bu'r ieithydd a'r hanesydd Edward Lhuyd ar ymweliad â'r ardal. Yng Nghorffwysfa gwelodd wr yn cerdded naw gwaith o gwmpas y garnedd, gan adrodd ei bader a thaflu carreg ar y garnedd gyda phob cylch a gyflawnai. Gellir cymharu hyn â'r arferiad o daflu cerrig ar feddau lladron penffordd a llofruddion a gleddid ar groesffyrdd erystalwm, er atal eu hysbrydion rhag crwydro. Cofier hefyd i bob un o filwyr Rhita Gawr roi carreg ar ei fedd ar gopa'r Wyddfa.

DYWEDIADAU DRAENOG

Dyma ddywediad trawiadol ddaeth o enau un o gymeriadau gwreiddiol y fro hon. Sôn oedd am ŵr a gwraig sydd wedi hen golli diddordeb yn y naill a'r llall. "Roedd y wraig mor ddiarth i'w gŵr ag ydi crempog i fochyn!" Deud da'n te!

CHWARAEON

Medal Arian am Saethu

Ar yr ail o Hydref aeth Elwyn Thomas, Hafan, Glanmoelyn Llanrug i Gastell Caerdydd i gystadlu ym Mhencampwriaeth Saethu Cymru. Daeth â'r fedal arian yn ôl hefo fo.

Cystadleuaeth oedd hon ar saethu it darged oedd 50 medr i ffwrdd efo reiffl 2.2; a phan gofir fod naint llygad y tarw (bulls eye) yn lâl na hanner ceiniog newydd, a iod reiffl yn pwysu 11 pwys, mae'n mlwg fod angen rhyw allu rbennig i fod yn llwyddiannus. Enillodd Elwyn 581 o bwyntiau llan o 600, tipyn o gamp yn wir, fhydd hyn syniad i chwi o safon y ystadleuaeth.

Mae'n cysegru 3 awr i ymarfer iob wythnos yn gyson, ac yn rafeilio deugain milltir drwy bob ywydd i'w glwb yng Nghricieth. Â rwy 150 o fwledi ym mhob marfer, ac os ydi fy syms i'n iawn 800 mewn blwyddyn, heb sôn am bwledi mae'n ddefnyddio mewn ystadleuaethau.

Wâst o bres medde chi? Choelais fawr! Dyma hobi'r dyn, tydi o dim yn yfed nac yn smocio. Rhaid rth lygaid da a nerfau o ddur i wyddo yn y gamp yma, ac mae llwyn yn bendant yn ei farn na all yn sy'n yfed roi ei holl feddwl ar i waith. Gwers dda i lawer o fabolampwyr y fro!

Elwyn yw Capten Clwb Saethu ricieith eleni, ac mae wedi ei



Elwyn Thomas, ei reiffl, a rhai o'r tlysau a enillwyd ganddo.

ddewis i gynrychioli'r Sir, ynghyd â thri aelod arall o'r Clwb. Mae wedi ennill nifer helaeth o wobrwon gan gynnwys pencampwriaeth Gogledd Cymru am Saethu Agored.

Ei nod wrth gwrs yw cynrychioli Cymru fel y gwnaeth ei hyfforddwr T.J. Roberts o Flaenau Ffestiniog.

Bydd yr Eco yn cadw llygaid ar ei llwyddiannau ac yn cyhoeddi yn y dyfodol agos, gobeithio, ei fod wedi cyrraedd ei nod.

Dyfodol Disglair

Un ar bymtheg oed yw Rhiannon Turner, Tyddyn Difyr, Penisarwaun. Symudodd ei theulu yno o Leicester ddwy flynedd yn ôl, ac ers hynny daeth pobl y Waen yn gyfarwydd â'i gweld yn rhedeg i fyny ac i lawr y lonydd o gwmpas y pentre. Mae Rhiannon yn fabolgampwraig addawol dros ben, yn canolbwyntio ar y ras 200 medr. Mae'n ddisgybl yn Ysgol Aberconwy, a'i thad yn athro yno. Mae ef hefyd yn hyfforddwr athletau dan nawdd yr AAA. Hawdd sylweddoli felly ei ddiddordeb a'i falchder yn llwyddiant ei ferch!

Ar y pumed o Fedi aeth Mr. Turner a chriw o athletwyr yn cynnwys Rhiannon, i gyfarfod Athletau Boot yn Leicester. Mae hwn yn gyfarfod pwysig yng nghalendr yr athletwyr, ac roedd enwogion fel Chris Monk, Janet Roscoe a Donna Murrey yn cystadlu yno.

Yn ffodus, doedd dim rhaid i Rhiannon redeg yn erbyn y rhain, ac yn ei ras 200 medr yn y dosbarth i rai dan 18 oed daeth yn drydydd, canlynid gwyh o sylweddoli nad oedd ond pumed rhan o eiliad rhyngddi hi a'r enillydd. Dylid cofio hefyd fod y mwyafrif o'r cystadleuwyr yn perthyn i glybiau â chanddynt drac pwrpasol a phob offer arall ar eu cyfer, tra mae Rhiannon yn



gorfod ymarfer ar gae'r ysgol ac ar y ffyrdd o gwmpas ei chartref.

Roedd John Bailey, yr hyfforddwr Cenedlaethol yn gwylio'r ras, a barnodd fod dyfodol disglair iawn iddi. Yn wir daeth i Dyddyn Difyr am benwythnos yn ystod mis Hydref i hyfforddi Rhiannon ei hun, a daeth â nifer o athletwyr enwog iawn gydag ef, gan gynnwys Janet Roscoe a Chris Monk.

Roedd Mr. Bailey wedi gwirioni â'r adnoddau naturiol sydd ar gael yn ein hardal ni ar gyfer hyfforddi athletwyr, a gwnaeth ddefnydd trwyadl ohonynt, gan gerdded a rhedeg hyd lethrau'r mynyddoedd Mae'n dyfarnu mai dyma'r math gorau o ymarfer ar gyfer cryfhau ei redwyr, ac mae'n bwriadu dod â chriw arall i Dyddyn Difyr yn ystod mis Tachwedd.

"Training at altitude" yw esboniad Mr. Turner am lwyddiant ei ferch, ac mae'n ymddangos fod un hyfforddwr profiadol iawn o leiaf yn cytuno ag ef. Dymunwn bob lwc iddynt ar uchelfannau Eryri ac i Rhiannon yn enwedig. Gobeithir mai llethrau'r Wyddfa fydd yn ei harwain i binaclau athletau ein gwlad.

PÊL DROED

Llanrug

Hydref 2ail

Mountain Rangers 2 Llanrug 1

Gallasai Llanrug fod wedi ennill y gêm yma yn yr hanner cyntaf petai'r blaenwyr wedi manteisio ar bob cyfle a ddaeth i'w rhan, a hwy oedd ar y blaen hanner yr amser, dwy gôl dda gan Hefin Pritchard. 'Roedd dwy gôl gan y Rangers yn yr ail hanner yn ddigon i ddwyn y ddau bwynt.

Hydref 9ed

Llanrug 2 UCNW 'A' 0

Thomas o Gaernarfon yn chwarae ei gêm gyntaf i Lanrug. 'Roedd ei ddylanwad ar y tîm yn eglur, ond Jackie Smith a sgoriodd y ddwy gôl.

Hydref 16ain

Llanrug 9 UCNW 'B' 0

Peiriant pêldroed Llanrug yn y gêm uchaf o'r diwedd, ei chwarae yn arbennig o dda, o'r dechrau i'r diwedd. Hefin Pritchard yn sgorio dwy cyn yr egwyl a'r saith yn yr ail hanner gan Geraint Hughes (2) J. Smith (2) J.I. Jones (2) a Keith Davies.

Hydref 23ain

Cricieth 1 Llanrug 8

'Roedd y gwynt cryf a'r glaw ysbeidiol yn gwneud chwarae pêl droed yn anodd, yn wir yn drech na'r ddau dîm drwy'r hanner cyntaf gan na sgoriwyd yr un gôl

cyn yr egwyl.

Oddi ar ben J.I. Jones y daeth y gôl gyntaf yn dilyn gwaith da gan Gareth Thomas.

Trawodd Cricieth yn ôl yn fuan gan ddod yn gyfartal, ond Llanrug oedd piau hi am weddill y gêm. J. Smith a J.I. Jones yn ei gwneud yn 3-1, ac yna dwy gôl dda gan Gareth Thomas. Jackie Smith sgoriodd nesaf cyn i J.I. Jones gael ei drydedd, a K. Jones yn dod drwodd o'r cefn am yr 8ed gôl.

Llanberis

Hydref 2ail.

Pwllheli 6 Llanberis 0

Dechrau digon digalon i'r mis o safbwynt Llanberis. Mae Pwllheli yn uchel yn y gynghrair ac yn eglur yn dipyn gwell tîm na Llanberis y tymor yma beth bynnag.

Hydref 9ed

Llanberis 5 Talysarn 3

Gêm gyffrous oedd hon, y chwarae'n symud o un pen i'r llall, a digon yn digwydd o flaen y ddwy gôl.

Dwy gôl yr un gan Kelvin Jones a Ray Harding, ac un gan Sel Allsup ddaeth â'r pwyntiau i Lanbêr, ond erys amheuaeth am yr amddiffynfa - naw gôl yn eu herbyn mewn dwy gêm!

Hydref 16

Harlech 3 - Llanberis 1

Curfa annisgwyl oedd hon gan i Lanberis fynd i Harlech yn ddigon ffyddiog o'r pwyntiau, a chamgymeriadau'r amddiffynwyr oedd yr achos eto.

Mae'n ymddangos hefyd nad dau bwynt yn unig oedd colled Llanberis gan i Sel Allsup anafu ei lygaid a gorfod iddo gael triniaeth lawfeddygol. Barn y doctoriaid yw na all chwarae eto cyn mis Mawrth.

Hydref 23

Pentraeth 3 - Llanberis 10

Ail rownd Cwpan Iau Gogledd Cymru. Gêm ddigon hawdd i Lanberis gan nad yw Pentraeth yn un o dimau cryfaf Ynys Môn. 'Roedd y sgôr yn 5-1 hanner yr amser a gallasai fod yn fwy. Mae'n rhaid fod hogia Llanberis wedi meddwl fod y gêm trosodd, gan iddynt adael i Bentraeth sgorio ddwywaith yn nechrau'r ail hanner, ond ar ôl ail ddeffro, daeth eu pum gôl arall.

Sgorwyr Llanberis oedd Barry Pitts (4) Gwilym Williams (3) Ray Harding, Arwyn Roberts a John Pritchard.

Mae'n bosib nad oes siawns ganddynt i ennill y gynghrair bellach, ond erys gobaith am gwpan neu ddwy.

CYNGHRAIR GWYRFAI

Bydd tymor y gynghrair yma yn dechrau yn fuan, ac ar fore Sadwrn y 23 o Hydref chwarae-

wyd gêm dreial gyfeillgar rhwng timau Llanberis a Deiniolen.

Cynghrair i fechgyn o dan 15 oed yw hon, ac ar sail y gêm a welwyd mae'n hawdd proffwydo fod dyfodol disglair i dîm Deiniolen ynddi.

Methodd rhai o fechgyn Llanberis â chwarae, ac efallai y bydd gwell graen ar eu chwarae hwythau hefyd pan fydd y tîm ar ei gryfaf.

LLWYDDIANT ETO?

Ar ôl ennill Cwpan Panty-fedwen yr Urdd y llynedd penderfynodd y tîm i fechgyn rhwng 15 a 18 oed o Aelwyd Llanberis gystadlu yn helaethach eleni ac ymgeisio am fwy nac un cwpan.

Bydd eu gêm gyntaf yn Llanberis ddydd Sadwrn Tachwedd 1af yn erbyn Benllech yng nghwpan Cymru i rai dan 18 oed. Dewch i'w cefnogi. Hogia Llanbêr a dalgylch yr Eco fydd yn y tîm a dymunir pob llwyddiant iddynt.



DARTIAU - APÊL

Mae'r tymor dartiau wedi dechrau a chan fod yr Eco â diddordeb yng ngweithgareddau pob Clwb yn yr ardal, ga' i apelio atoch i benodi un aelod i gysylltu â mi unwaith y mis ynglŷn â'r canlyniadau yn Sycharth, Bryn Eglwys, Penisarwaen?